Adroddiad Syr David Henshaw
i'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Waith a Phensiynau

Adfer y drefn cynnal plant:
llwybrau i gyfrifoldeb

Gorffennaf 2006

Adroddiad Syr David Henshaw i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Adfer y drefn cynnal plant: llwybrau i gyfrifoldeb

Cyflwynwyd gerbron y Senedd gan
yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2006

Cm 6894

ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos yr adran) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron ac mae'n rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr hawlfraint yn y ddogfen hon i The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2–16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ.

Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Cynnwys

1 Cyflwyniad gan Syr David Henshaw 1

2 Crynodeb gweithredol 4

3 Crynodeb o'r argymhellion 8

Rhan 1 – Gwasanaethau cynnal plant wedi'u hailgynllunio 11

4 Rhoi'r plentyn yn gyntaf 12

5 Y system wedi'i hailgynllunio 23

6 Cymryd gorfodi o ddifrif 31

7 Proses drosglwyddo lwyddiannus 33

Rhan 2 – Model newydd ar gyfer cyflwyno'r drefn cynnal plant ... 39

8 Model gweithredu newydd 40

9 Llywodraethu llwyddiannus 42

10 Rheoli'r etifeddiaeth 44

11 Gwella polisi cynnal plant 46

12 Camau nesaf 54

Rhan 3 – Atodiadau 55

I Cylch gorchwyl 56

II Systemau amgen a ystyriwyd 57

III Ymgynghori â rhanddeiliaid 61

IV Tîm prosiect Ailgynllunio Henshaw 65

Ôl-nodiadau 67

Cyflwyniad gan
Syr David Henshaw

At: Y Gwir Anrh John Hutton AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Ym mis Chwefror, gwnaethoch ofyn i mi arwain y broses o ailgynllunio'r system cynnal plant gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

- pa un yw'r ffordd orau o sicrhau bod rhieni yn cymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant pan fyddant yn byw ar wahân;
- y trefniadau gorau ar gyfer cyflawni'r canlyniad hwn yn gost-effeithiol;
- yr opsiynau ar gyfer trosglwyddo i strwythurau a pholisïau newydd, gan gydnabod yr angen i ddiogelu lefel y gwasanaeth a gynigir i'r 1.5 miliwn o rieni â gofal ar hyn o bryd.

Gwnaethoch ofyn i mi gyflwyno adroddiad cyn toriad seneddol yr haf. Bu hon yn amserlen dynn iawn, nad oedd yn ddigonol i ganiatáu proses ailgynllunio lawn ond yn hytrach nodi cyfeiriad saernïaeth polisi newydd, trefniadau sefydliadol newydd a chynlluniau ar gyfer y broses drosglwyddo. Erys llawer i'w wneud, ond rwyf yn ffyddiog bod yr argymhellion a gynigiaf yn yr adroddiad hwn yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer system llawer mwy effeithiol yn y dyfodol.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod angen newid sylfaenol yn y modd y trefnir cynnal plant yn y wlad hon. Mae'r system bresennol yn rhoi tasg amhosibl i'r wladwriaeth. Yn fy adroddiad, ymdriniaf â materion mewn tri maes craidd:

- plant;
- cyfrifoldebau;
- cydymffurfio.

Yn sylfaenol, mae'r wladwriaeth yn cymryd rhan yn y drefn cynnal plant er mwyn sicrhau lles plant. Mae rhieni yn gyfrifol am eu plant a dylent allu cymryd cyfrifoldeb am wneud eu trefniadau eu hunain. Lle na allant gytuno neu lle na fyddant yn cytuno, mae angen i'r wladwriaeth allu ymyrryd a sicrhau y caiff y plant gymorth ariannol. Os bydd rhieni yn ceisio osgoi eu cyfrifoldeb, yna mae rhan gan y wladwriaeth i'w chwarae i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae gan blant yr hawl i gael cymorth priodol ac mae'n rhaid i'r wladwriaeth ddarparu gwasanaethau i ategu arfer yr hawl honno ar eu rhan.

Mae nifer o newidiadau polisi sylfaenol yn deillio o'r ymagwedd hon tuag at blant, cyfrifoldebau a chydymffurfio. Ymhlith y rhain mae galluogi pob rhiant i arfer eu cyfrifoldebau, p'un a ydynt yn cael budd-daliadau ai peidio. Yn gysylltiedig â hyn, dylid caniatáu i fwy o rieni sy'n cael budd-daliadau gadw'r gynhaliaeth a gânt: byddai hyn yn gwneud cyfraniad mawr i gyflawni amcan y Llywodraeth o ran tlodi plant.

Mae'n rhaid i'r trefniadau sefydliadol i ategu'r ymagwedd hon weithio ac mae'n rhaid gweld eu bod yn gweithio. Mae'r newidiadau polisi yn creu heriau cyflwyno newydd. Felly rwyf yn cynnig dirwyn yr Asiantaeth Cynnal Plant bresennol i ben, gyda chorff gweddilliol er mwyn sicrhau yr eir ar drywydd dyledion presennol. Dylid sefydlu'r sefydliad newydd, sy'n canolbwyntio ar les plant a gorfodi cyfrifoldebau, i ddechrau o'r newydd ac ni ddylai anawsterau systemau o'r gorffennol cael eu trosglwyddo i'r sefydliad newydd. Bydd gorfodi cyfrifoldebau yn un o elfennau allweddol y trefniadau newydd ac nid oes rheswm pam na all roi llawer mwy o bwyslais ar hyn yn gyflym o fewn strwythur yr Asiantaeth Cynnal Plant bresennol. Yn wir, dechreuwyd ar hyn o dan yr arweinyddiaeth newydd yn yr asiantaeth bresennol.

Yn y cam nesaf, mae llawer i'w wneud, a chynigiaf y dylid sefydlu Bwrdd Rhaglen a fyddai'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r newidiadau. Dylai fod cynrychiolaeth eang ar y Bwrdd, gan roi pwyslais arbennig ar sgiliau o ran cynllunio sefydliadau o safon sy'n addas at y diben yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dylid creu swyddfa i gefnogi'r Bwrdd gyda sgiliau trawssector tebyg. Bydd cynllunio a chreu'r saernïaeth sefydliadol gywir, canolbwyntio ar gwsmeriaid a systemau cyflwyno effeithiol ac effeithlon yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y sefydliad newydd yn y dyfodol.

Mae lles y plentyn, gyda'r rhieni yn cymryd y prif gyfrifoldeb, wrth wraidd yr ymagwedd gyffredinol hon. Os na fyddant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb, bydd y wladwriaeth yn cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae polisi cynnal plant wedi'i ddiwygio'n fynych ond nid yw hyn wedi cyflawni dros blant. Ni allwn barhau ar y trywydd hwn. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i newid y mae'n rhaid gafael ynddo a'i wireddu er mwyn creu system cynnal plant sy'n addas at yr 21ain ganrif.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r tîm Ailgynllunio, cydweithwyr ar draws y llywodraeth, gan gynnwys y rhai yn yr Asiantaeth Cynnal Plant, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r holl randdeiliaid sydd wedi cyfrannu cymaint drwy gymryd rhan mewn trafodaethau, seminarau a chyflwyniadau.



Syr David Henshaw
Gorffennaf 2006

2 Crynodeb gweithredol

Dylai'r drefn cynnal plant ymwneud yn bennaf â gwella lles plant. Yn gyntaf oll, cyfrifoldeb y rhieni dan sylw yw cynnal plant.

Nid yw'r system cynnal plant yn cyflawni

- Mae'r trefniadau presennol yn rhoi tasg amhosibl i'r wladwriaeth ac, o ganlyniad, nid yw'r system yn cyflawni, dros blant, rhieni na threthdalwyr:

  – Dim ond un o bob tri rhiant â gofal sy'n cael unrhyw gynhaliaeth.

  – Er bod arbed arian i drethdalwyr yn un o'r rhesymau sylfaenol dros sefydlu'r Asiantaeth Cynnal Plant, mae'r arian sydd wedi'i arbed mewn gwirionedd yn sylweddol llai na'r hyn y mae'n ei gostio i gynnal y system. Cost net cynnal yr Asiantaeth i drethdalwyr yw tua £200 miliwn y flwyddyn.

  – Mae'r wladwriaeth yn gwario adnoddau sylweddol yn trosglwyddo symiau cymharol fach o arian rhwng pobl nad ydynt am ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant yn aml. Dim ond 13 y cant o achosion presennol sydd â'r potensial i adennill arian i'r wladwriaeth.

Mae'r methiant hwn yn deillio o faterion polisi a materion gweithredol

- Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bob rhiant â gofal sy'n hawlio budd-daliadau penodol ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant i gytuno ar gynhaliaeth. Mae'n ofynnol i tua 70 y cant o ymgeiswyr newydd ddefnyddio'r Asiantaeth. Mae'r gofyniad hwn yn atal rhieni rhag gwneud trefniadau preifat rhyngddynt eu hunain. O ganlyniad, mae'n creu grŵp mawr o gleientiaid nad ydynt am ddefnyddio'r gwasanaeth.

- Mae gostwng yr hawl i fudd-dal bunt am bunt yn unol â'r gynhaliaeth a gesglir yn golygu nad oes gan y naill riant na'r llall reswm dros gydweithredu â'r Asiantaeth Cynnal Plant. Nid yw incwm rhieni â gofal yn cynyddu fawr ddim, os o gwbl, ac mae'r arian y mae rhieni dibreswyl yn ei dalu yn mynd i'r wladwriaeth, yn hytrach na'u plant.

- Mae natur gymhleth yr achosion yn golygu ei bod yn anodd i'r system ymdopi â hynny. Mae gan lawer o'r cleientiaid sefyllfaoedd anodd ag incwm cyfnewidiol, symudiadau rheolaidd i mewn ac allan o waith a chydberthnasau personol cymhleth.

- Hyd yn oed o gofio pa mor anodd yw'r dasg, ni fu hon yn asiantaeth lwyddiannus, a cheir cryn dystiolaeth o anawsterau gweithredol a TG eang.

Argymhellion allweddol

- Dim ond pan na all y rhieni ddod i gytundeb eu hunain, neu pan fydd un parti yn ceisio osgoi eu cyfrifoldebau y dylai'r wladwriaeth gymryd rhan. Byddai dileu'r rhwystrau sy'n atal rhai rhieni rhag gwneud eu trefniadau eu hunain ar hyn o bryd yn galluogi'r wladwriaeth i ganolbwyntio ar yr achosion mwy anodd ac achosion lle y mae angen gorfodi effeithiol.

- Dylid annog a chefnogi rhieni sy'n gallu gwneud eu trefniadau eu hunain i wneud hynny. Mae trefniadau o'r fath yn tueddu i arwain at foddhad a chydymffurfiaeth well ac yn caniatáu i amgylchiadau unigol gael eu hadlewyrchu. Dylem roi terfyn ar y polisi o orfodi pob rhiant â gofal sy'n hawlio budd-daliadau penodol i ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant.

- Byddai'r rhai sydd am i drefniant preifat fod yn orfodadwy yn gyfreithiol yn gallu cael gorchymyn cydsynio. Dylai'r opsiwn hwn fod ar gael i bob rhiant. Byddai'r rhai na allent ddefnyddio dulliau eraill yn gallu defnyddio gwasanaeth wrth gefn y llywodraeth.

- Byddai caniatáu i'r rhan fwyaf o rieni â gofal gadw'r gynhaliaeth a delir yn annog y ddau riant i gydweithredu, gan gynyddu'r gynhaliaeth sy'n mynd i'r plant.

- Gellir cyflwyno camau diogelu i atal y rhieni hynny â gofal sy'n cael symiau mawr o gynhaliaeth rhag gallu manteisio'n llawn ar fudd-daliadau'r wladwriaeth hefyd.

- Felly, dylai pob rhiant allu manteisio ar y dull mwyaf priodol o drefnu cynnal plant:

  – trefniadau cwbl breifat;

  – trefnu gorchmynion cydsynio drwy'r llysoedd; neu

  – gwasanaeth wrth gefn a ddarperir gan y llywodraeth i'r rhai na allant ddefnyddio dulliau eraill.

- Mae cynyddu'r dewisiadau i rieni yn dibynnu ar sicrhau bod cyngor a chymorth clir o ansawdd uchel ar gael i bawb. Dylai fod gwasanaethau cyngor mwy hygyrch a chydgysylltiedig i helpu pobl i wneud y dewisiadau hyn. Dylai'r rhain fod yn rhan o amrywiaeth ehangach o wasanaethau ar gyfer rhieni sy'n gwahanu a theuluoedd rhieni unigol.

Proses drosglwyddo lwyddiannus

- Mae ailgynllunio'r system cynnal plant yn creu heriau o ran trosglwyddo o'r trefniadau presennol i'r fframwaith polisi newydd.

- Yn y system wedi'i hailgynllunio, byddai rôl y wladwriaeth wrth gynnal plant yn wahanol iawn i'r rôl sydd ganddi ar hyn o bryd. Byddai gwasanaeth y llywodraeth yn ymdrin â chyfres lai o achosion mwy anodd a byddai'n gweithredu fel darparwr gwasanaethau, gan gynnig gwybodaeth a chyngor a chan gyfeirio pobl at wasanaethau eraill.

- Yn fy marn i, ni all yr Asiantaeth Cynnal Plant fel y mae gyflwyno'r newid sylweddol o ran y model busnes, diwylliant ac effeithlonrwydd sydd ei angen i gyflawni'r rôl newydd hon. Dylid sefydlu sefydliad newydd i ddarparu'r drefn cynnal plant.

- Dylid gwahodd rhieni i wneud cais arall i'r corff newydd os byddant am barhau â'u cais cynnal plant. Mae hyn yn golygu na fyddai angen trosglwyddo achosion rhwng y ddau gynllun cynnal plant presennol. Mae'n rhaid sicrhau nad yw methiannau blaenorol yn cael eu trosglwyddo i'r system wedi'i hailgynllunio.

- Er mwyn sicrhau y gorfodir cyfrifoldebau rhieni, dylai corff penodedig fynd ar drywydd hen ddyledion a chau achosion.

- Wrth gyflwyno'r newidiadau hyn, mae'n bwysig bod rhieni yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldeb presennol dros eu plant. Mae'n rhaid i'r Asiantaeth Cynnal Plant barhau i ganolbwyntio ar wella'r gwasanaeth i rieni a gorfodi cyfrifoldeb i'r rhai sy'n gwrthod cynnal eu plant yn ariannol. Bydd gwella'r gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn awr yn datblygu'r llwyfan i drosglwyddo i'r trefniadau newydd yn llwyddiannus.

Model cyflwyno newydd

- Mae gorfodi effeithiol yn allweddol i lwyddiant y system cynnal plant. Ni allwn ailadrodd methiannau'r gorffennol sydd wedi arwain at orfodi gwan, gan atgyfnerthu'r canfyddiad y gall rhieni osgoi peidio â chymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant. Dylid cynnal gorfodi fel rhan benodedig o'r busnes gyda thargedau perfformiad clir ar gyfer dod â mwy o achosion i ben yn llwyddiannus.

- Gellid gwneud yr holl swyddogaethau craidd sy'n ymwneud â darparu'r drefn cynnal plant, gan gynnwys olrhain rhieni dibreswyl, asesu incwm a chasglu taliadau yn symlach ac yn fwy effeithlon.

- Gallai'r Llywodraeth godi tâl ar bobl i ddefnyddio gwasanaeth cynnal plant newydd a mwy effeithiol. Byddai hyn yn eu hannog ymhellach i wneud eu trefniadau preifat eu hunain lle y bo'n bosibl.

- Y cam nesaf yw sefydlu rhaglen benodedig i ddatblygu achos busnes llawn dros newid a'i weithredu.

Cyflawni mwy

- Byddai caniatáu i'r rhan fwyaf o rieni â gofal gadw'r gynhaliaeth a delir yn annog y ddau riant i gydweithredu, gan gynyddu'r gynhaliaeth sy'n cyrraedd y plant. Ar y cyfan, disgwylir i'r system wedi'i hailgynllunio gynyddu nifer y plant sy'n cael cynhaliaeth o 1.1 miliwn ar hyn o bryd i 1.75 miliwn, gan y bydd mwy o rieni yn cyflawni eu cyfrifoldebau ariannol.

- Gallai diystyru'r rhan fwyaf o gynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal gael effaith fawr ar dlodi plant, gan godi rhwng 80,000 a 90,000 o blant ychwanegol allan o dlodi. Byddai effaith gyffredinol fy nghynigion yn codi rhyw 120,000 o blant allan o dlodi. Byddai hyn yn cyflawni mwy na 10 y cant o'r targed o ran tlodi plant ar gyfer 2010.

- Bydd y sefydliad newydd yn gallu canolbwyntio ar nifer lai o achosion mwy anodd, sydd oll wedi dewis defnyddio gwasanaeth wrth gefn y llywodraeth.

Strwythur yr adroddiad

- Mae'r adroddiad hwn mewn tair rhan. Mae Rhan 1 yn trafod y rhesymeg dros ymyrraeth y llywodraeth yn y drefn cynnal plant a pham mae'r system bresennol wedi methu rhieni a phlant. Mae'n egluro'r prif newidiadau sydd eu hangen a sut i drosglwyddo o'r system bresennol i'r system well.

- Mae Rhan 2 yn disgrifio'n fanylach sut y bydd y model newydd yn gweithredu a'i strwythur llywodraethu. Mae'r adran hon yn dangos sut y bydd y system newydd yn ymdrin â phroblemau etifeddiaeth ac mae'n nodi opsiynau polisi manwl y dylai'r Llywodraeth eu harchwilio ymhellach.

- Mae'r Atodiadau yn Rhan 3 yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y broses ailgynllunio (y tîm a'r broses ymgynghori), a disgrifiadau o'r systemau amgen a archwiliwyd.

3 Crynodeb o'r argymhellion

Argymhelliad	Tudalen
Newid cyffredinol: Creu system sy'n caniatáu i rieni wneud eu trefniadau cynnal plant eu hunain, gyda'r wladwriaeth yn cymryd rhan gyflym ac effeithiol lle nad yw trefniadau o'r fath yn bosibl.	13
Newidiadau o ran cleientiaid sy'n cael budd-daliadau: Dileu'r orfodaeth i rieni â gofal sy'n cael budd-daliadau wneud cais am gynhaliaeth cynnal plant.	18
Diystyru cynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal: a) Diystyru cynhaliaeth cynnal plant hyd at drothwy uchel wrth gyfrifo Cymhorthdal Incwm. b) Diystyru cynhaliaeth cynnal plant yn gyfan gwbl wrth gyfrifo Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.	22
Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor: Ailgyflunio gwasanaethau cyngor i sicrhau y caiff gwybodaeth cynnal plant ei hintegreiddio'n briodol. Dylai grŵp trawslywodraethol ddatblygu'r manylion am hyn.	26
System gyfreithiol: Dileu'r terfyn presennol o 12 mis, gan atal gorchmynion cydsynio rhag cael eu gwyrdroi gan y sefydliad gweinyddol, yn unol â'r sefyllfa cyn 2003.	28
Gorfodi: a) Rheoli gorfodi fel swyddogaeth fusnes ar wahân. b) Cyflwyno cosbau newydd, gan gynnwys y pŵer i dynnu pasbortau yn ôl, a gwneud mwy o ddefnydd o bwerau presennol megis gosod cosbau ariannol.	32
Darparu gwasanaeth newydd: a) Creu sefydliad newydd i weinyddu'r drefn cynnal plant. b) Creu corff gweddilliol â therfyn amser iddo i reoli a gorfodi hen ddyledion.	35

Argymhelliad	Tudalen
Trosglwyddo: a) Ni ddylai unrhyw achosion gael eu trosglwyddo o'r system bresennol i'r system wedi'i hailgynllunio. b) Caiff rhieni sydd am ddefnyddio'r system weinyddol newydd eu helpu i wneud cais arall.	36
Model gweithredu newydd: Dylid darparu'r drefn cynnal plant drwy gorff comisiynu gan fanteisio ar arbenigedd o'r sector preifat, y sector di-elw a'r sectorau cyhoeddus ehangach.	41
Llywodraethu: Mae angen gwaith pellach i asesu manteision ac anfanteision cymharol sefydlu'r sefydliad newydd fel corff cyhoeddus anadrannol neu ei gadw fel asiantaeth weithredol.	43
Rheoli dyledion: Cael pwerau deddfu i reoli dyledion presennol a gwneud gwaith pellach o ran natur dyledion hanesyddol.	45
Gwaith polisi pellach: Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau wneud gwaith pellach i nodi a datblygu cyfleoedd i fireinio polisïau o ran olrhain, asesu a chasglu.	52
Codi tâl: a) Dylid rhoi'r pŵer i'r corff gweinyddol newydd godi tâl ar gleientiaid. b) Dylid gwneud gwaith pellach i ddatblygu polisi manwl yn y maes hwn.	53

Rhan 1

Gwasanaethau cynnal plant wedi'u hailgynllunio

4 Rhoi'r plentyn yn gyntaf

1. Gwella lles plant yw'r egwyddor graidd sy'n sail i drefniadau cynnal plant. Cyfrifoldeb rhieni yn bennaf yw cytuno ar gynhaliaeth cynnal plant a'i thalu. Fodd bynnag, gall peidio â gwneud trefniadau o'r fath gael canlyniadau negyddol o ran lles plant a chymdeithas ehangach. Am y rhesymau hyn, dylai'r Llywodraeth gefnogi rhieni wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau.

2. Mae llawer o ffactorau yn effeithio ar les plant, ond y ffactorau pwysicaf yw trefniant y teulu a thlodi. Mae plant y mae eu rhieni wedi gwahanu neu sydd wedi cael eu magu mewn cartrefi rhieni unigol yn fwy tebygol o wynebu canlyniadau negyddol. Gall y rhain godi ar draws amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys iechyd, addysg a chyflogaeth.[1] Mae canlyniadau o'r fath yn deillio'n rhannol o absenoldeb rhiant a'r rolau emosiynol, cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu chwarae. Os bydd rhieni plant yn gwahanu ac os bydd gwrthdaro rhwng y rhieni, gall hynny gael effaith hirdymor ar les y plentyn.

3. Gall effaith economaidd bod yn rhiant unigol fod yn fawr. Mae plant mewn teuluoedd rhieni unigol yn wynebu risg llawer uwch o dlodi na'r rhai mewn cartrefi parau, sy'n bwysig am fod tlodi yn un o'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi canlyniadau lles gwael ymhlith plant.[2] Mae'r gostyngiad sydyn mewn incwm yn sgîl rhieni yn gwahanu yn ffactor mawr sy'n cyfrannu at dangyflawniad rhai plant o deuluoedd rhieni unigol.[3] Mewn achosion o'r fath gall cynhaliaeth cynnal plant wneud gwahaniaeth i sefyllfa economaidd y cartref.[4]

4. Cydnabyddir bod cymryd cyfrifoldeb ariannol dros blant yn un o gyfrifoldebau allweddol rhieni.[5] (Mae materion ehangach o ran cyfrifoldeb rhieni megis cynnal cydberthnasau rhwng rhieni a phlant ar ôl gwahanu y tu allan i gylch gwaith y broses ailgynllunio ac fe'u hystyrir mewn mannau eraill gan y llywodraeth.[6]) Os na chyflawnir cyfrifoldeb ariannol, gall gael canlyniadau negyddol eang. Nid yw'n deg i'r plant, eu rhiant â gofal na chymdeithas ehangach ddioddef o ganlyniad i'r ffaith nad yw rhieni dibreswyl yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Un o ddyletswyddau'r llywodraeth a dderbynnir yw darparu fframwaith i bobl gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hyn yn creu rôl i'r wladwriaeth i gefnogi a hwyluso trefniadau cynnal plant a, lle y bo angen, i orfodi cyfrifoldeb.

5. Dylai ymagwedd y system newydd roi rôl arweiniol i rieni wrth wneud trefniadau cynnal plant. Wrth wneud hynny, mae angen i'r wladwriaeth ddileu'r rhwystrau sy'n atal rhieni rhag trefnu cynhaliaeth rhyngddynt eu hunain ar hyn o bryd. Dengys ymchwil ddiweddar fod rhieni yn cefnogi'r ymagwedd hon.[7]

6. Cyfrifoldeb y rhieni yw cynnal plant yn gyntaf oll. Mae tystiolaeth yn awgrymu lle y gall pobl wneud eu trefniadau eu hunain eu bod yn fwy bodlon ac yn cydymffurfio'n fwy.[8] O ganlyniad caiff lles plant ei wella am fod cynhaliaeth yn fwy tebygol o gael ei thalu, ac mae'n debygol y caiff gwrthdaro rhwng rhieni ei leihau.[9] Mewn llawer o achosion lle y mae cynhaliaeth cynnal plant yn peri problem, mae'r amgylchiadau yn gymleth am resymau o ran y gydberthynas neu am resymau ariannol. Mae caniatáu i rieni wneud eu trefniadau eu hunain yn eu galluogi i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i sefyllfaoedd unigol a newid mewn amgylchiadau. Yn hyn o beth, credaf fod dadl gref dros annog rhieni i wneud eu trefniadau eu hunain.

7. Lle na all rhieni drefnu cynhaliaeth eu hunain, neu pan fydd trefniadau preifat yn chwalu, bydd y wladwriaeth yn rhoi cymorth i helpu rhieni i gytuno ar daliadau, eu pennu a'u cynnal. Nid yw cymryd cyfrifoldeb ariannol yn ddewisol, ac ni ddylai fod yn bosibl i rieni osgoi eu cyfrifoldebau heb gael eu cosbi. Dylai'r wladwriaeth sicrhau y caiff y rhai sy'n ceisio osgoi talu cynhaliaeth eu dwyn i gyfrif. Lle y bo angen, dylid cymryd camau gorfodi cryf.

8. Felly mae rôl y wladwriaeth ym maes cynnal plant yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

   - gwella lles plant;
   - sicrhau bod rhieni yn cymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant.

9. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r fframwaith y mae'r wladwriaeth yn ei ddarparu fod:

   - yn dryloyw, yn atebol ac yn hawdd i rieni ei ddeall a'i ddefnyddio;
   - yn deg, yn gredadwy, ac y derbynnir ei fod yn ddilys;
   - wedi'i gydgysylltu ar draws gwasanaethau perthnasol y llywodraeth;
   - yn gost-effeithiol.

Argymhelliad: Creu system sy'n caniatáu i rieni wneud eu trefniadau cynnal plant eu hunain, gyda'r wladwriaeth yn cymryd rhan gyflym ac effeithiol lle nad yw trefniadau o'r fath yn bosibl.

Nid yw'r drefn cynnal plant yn gweithio

10. Nid yw'r system bresennol yn cyflawni'n effeithiol. Ar hyn o bryd, dim ond cyfraniad cyfyngedig y mae'r drefn cynnal plant yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant. Er bod y drefn cynnal plant yn codi tua 100,000 o blant allan o dlodi,[10] dim ond 42,000 o rieni â gofal[11] sy'n cael budd-daliadau sy'n cael cynnydd net mewn incwm o ganlyniad i daliadau.[12]

11. Gall lles plant ddioddef hefyd drwy'r gwrthdaro a allai godi rhwng rhieni o ganlyniad i'r ffaith bod trydydd parti yn cymryd rhan yn y drefn cynnal plant. Mae tystiolaeth arolygon yn nodi y gall gorfodi rhieni â gofal sy'n cael budd-daliadau i ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant wrthdroi trefniadau preifat llwyddiannus a chreu gwrthdaro rhwng rhieni.[13] Nid yw llawer o rieni yn deall bod yn rhaid i rieni â gofal ddefnyddio'r system.[14] Gall hyn greu dadleuon a chamddealltwriaeth os bydd un rhiant yn credu bod y llall wedi dewis cynnwys yr Asiantaeth Cynnal Plant, yn enwedig os oedd trefniadau preifat ar waith o'r blaen.

12. Roedd gwella'r broses o orfodi arferion a chyfrifoldebau cymdeithasol yn un o'r amcanion allweddol wrth greu'r Asiantaeth Cynnal Plant.[15] Gwnaed hyn mewn ymateb i'r lefelau isel o rieni unigol a oedd yn cael cynhaliaeth. Fodd bynnag, prin y mae'r ffigurau wedi gwella 16 mlynedd yn ddiweddarach. Er bod llawer o rieni dibreswyl yn cymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant ac yn talu cynhaliaeth reolaidd, mae cred eang ymhlith eraill ei bod yn bosibl ac, mewn rhai achosion, yn dderbyniol osgoi talu.[16] Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith mai dim ond tua 30 y cant o rieni â gofal sy'n cael unrhyw gynhaliaeth o gwbl.[17] Mae cydymffurfiaeth â threfniadau a wnaed drwy'r Asiantaeth Cynnal Plant yn is na chydymffurfiaeth â'r trefniadau a wnaed drwy ddulliau eraill.

Ffigur 1. **Rhieni â gofal sy'n nodi eu bod yn cael cynhaliaeth yn ôl y math o drefniant**



*Dim ond yn cynnwys y trefniadau hynny lle y mae'r rhwymedigaeth yn ddyledus i'r rhiant â gofal yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau.

Ffynhonnell: Willets M et al, 2005, Children in Britain: Findings from the 2003 Families and Children Study (FACS), Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 249.

13. Bu cost-effeithiolrwydd i drethdalwyr yn wael yn gyson. Yn 2004/05, adenillodd yr Asiantaeth Cynnal Plant £120 miliwn o wariant Cymhorthdal Incwm o gymharu â chostau o £425 miliwn. Arbedwyd tua £80 miliwn arall drwy ddulliau eraill.[18] Felly, mae'r system yn rhedeg ar gost net i drethdalwyr o tua £200 miliwn. Mae dyledion heb eu talu hefyd, sef cynhaliaeth heb ei thalu, o fwy na £3 biliwn. Nid yw cost-effeithiolrwydd system y DU yn cymharu'n ffafriol â'r systemau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill.[19] Un o'r rhesymau dros y cost-effeithiolrwydd gwael yw, fel y mae Ffigur 2 yn dangos, mai dim ond mewn cyfran fach iawn o lwyth achosion yr Asiantaeth y mae'n bosibl adennill arian i'r wladwriaeth (sef achos â rhwymedigaeth gadarnhaol lle y mae'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau).

Ffigur 2. **Dadansoddiad o'r llwyth achosion presennol**



Ffynhonnell: Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006 a chronfa ddata budd-daliadau 100% yr Adran Gwaith a Phensiynau.[20]

RhAG = rhiant â gofal

Pam nad yw'r system bresennol yn cyflawni

14. Ers ei sefydlu, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi wynebu cyfres o broblemau sydd wedi'i hatal rhag cyflawni. Mae tair prif broblem:

- *Problemau polisi:* Mae'r rhain yn deillio o'r fframwaith polisi rhy uchelgeisiol y disgwyliwd i'r Asiantaeth ei gyflawni.
- *Problemau gweithredol:* Creodd y saernïaeth bolisi gymhleth ofynion gweithredol anodd.
- *Materion etifeddiaeth:* Mae sawl ymgais i ymdrin â phroblemau gweithredol heb ymdrin â'r materion polisi sylfaenol wedi creu trydedd gyfres o broblemau, gan ddeillio o etifeddiaeth methiannau'r gorffennol.

15. *Problemau polisi:* Ers ei chreu, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi'i dal yn ôl gan broblemau polisi sylfaenol. Mae cael amcanion amryfal yn ei gwneud yn fwy anodd cyflawni unrhyw nod penodol. Yn wreiddiol, cynlluniwyd y system bresennol yn bennaf i adennill arian i drethdalwyr pan fydd rhieni â gofal yn cael budd-daliadau. Efallai y bydd yn anodd cyflawni hyn mewn ffordd gost-effeithiol ochr yn ochr â mynd i'r afael â thlodi plant. Mae gwledydd eraill wedi cael anhawster i gyflawni amcanion amryfal hefyd.

Er enghraifft, newidiodd yr Unol Daleithiau eu hymagwedd, gan wneud cynnal plant yn 'rhaglen i'r teulu yn gyntaf' yn hytrach nag un oedd yn canolbwyntio ar adennill costau: "child support is no longer primarily a welfare reimbursement, revenue-producing device for the federal and state government; it is a family first programme."[21]

16. Er mwyn galluogi'r wladwriaeth i adennill costau budd-daliadau, mae'n ofynnol i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant i wneud trefniadau cynnal plant. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cymhellion i gydweithredu ac, o ganlyniad, efallai y bydd rhieni yn penderfynu peidio â chydweithredu â'r Asiantaeth a gwneud trefniadau anffurfiol yn lle hynny. Mae gorfodaeth yn golygu bod rhieni mewn cysylltiad â'r Asiantaeth Cynnal Plant lle nad oes angen yn aml.

17. Mae'r system yn ceisio ystyried sefyllfaoedd cymhleth iawn sy'n ei gwneud yn anodd ei gweinyddu. Po fwyaf y caiff cytundebau eu teilwra i amgylchiadau unigol, y mwyaf anodd ydyw i'r system gyflawni. Mae gan gyfran fawr o'r grŵp cleientiaid sefyllfaoedd cymhleth. Mae incwm cyfnewidiol, symudiadau rheolaidd i mewn ac allan o'r gwaith a chydberthnasau anodd yn ei gwneud yn anodd i'r system ymdopi â hyn.

18. *Problemau gweithredol:* Mae gan yr Asiantaeth Cynnal Plant hanes o broblemau gweithredol sydd wedi cael cryn sylw, gan gynnwys y rhai yr ymdriniwyd â hwy yn adroddiad diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.[22] Am resymau o fewn rheolaeth yr Asiantaeth a'r tu hwnt i'w rheolaeth, mae diwygiadau wedi'u rhwystro gan broblemau o ran y system gyfrifiadurol newydd. Mae hyn wedi golygu bod yr hen gynllun a'r cynllun newydd yn cydredeg.[23] O ganlyniad, mae perfformiad gweithredol yn parhau i fod yn siomedig iawn. Mae bron 70,000 o achosion o dan yr hen gynllun yn dal heb eu trafod a hynny dair blynedd ar ôl cyflwyno'r rheolau newydd. Yn ogystal, mae ôl-groniad o chwarter miliwn o achosion o dan y cynllun newydd a 150,000 o achosion eraill lle nad oes rhestr taliadau ar waith. Mae 127,000 o achosion lle na thalwyd cynhaliaeth yn ystod y tri mis diwethaf.[24]

19. Cyhoeddwyd Cynllun Gwella Gweithredol ym mis Chwefror 2006, gan nodi camau i wella perfformiad gweithredol yr Asiantaeth Cynnal Plant. Ymhlith y rhain mae ailstrwythuro'r Asiantaeth a symleiddio prosesau busnes, yn ogystal â mesurau penodol i ymdrin â'r ôl-groniad o achosion a gwella'r broses o gasglu a gorfodi dyledion.[25] Nodir manylion pellach yn Atodiad II.

20. *Materion etifeddiaeth:* Mae ymgais yn y gorffennol i ymdrin â'r problemau sy'n wynebu'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi creu problemau pellach. Pan gyflwynwyd rheolau'r cynllun newydd, bwriadai'r Asiantaeth symud achosion o'r hen systemau TG i'r

systemau TG newydd a throsglwyddo achosion o dan yr hen gynllun i reolau'r cynllun newydd. Nid yw'r broses symud wedi digwydd eto ond mae problemau gweithredol wedi golygu bod y broses drosglwyddo yn anodd. Mae hyn yn peri rhwystredigaeth i staff yr Asiantaeth ac i rieni a oedd yn disgwyl gweld gwelliannau.

Fframwaith polisi sy'n canolbwyntio ar les plant

21. Er mwyn cyflawni'r amcanion cyffredinol o ran cynnal plant, mae'n hanfodol galluogi rhieni i wneud eu trefniadau cynnal plant eu hunain, gan ddileu'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny ar hyn o bryd. Byddai galluogi rhieni i wneud trefniadau cynnal plant, mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion orau, yn cynyddu nifer y trefniadau ac, o ganlyniad, byddai'n cynyddu nifer y plant sy'n cael cynhaliaeth.

22. Byddai dileu'r orfodaeth i rieni â gofal sy'n cael budd-daliadau ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant yn caniatáu i rieni wneud eu trefniadau eu hunain ac yn helpu i hybu diwylliant cydymffurfio. Mae tystiolaeth arolygon yn awgrymu, os gallent ddewis, y gallai rhwng 35 y cant a 50 y cant o rieni â gofal sy'n gorfod defnyddio'r Asiantaeth ar hyn o bryd beidio â'i defnyddio. Gall gorfodi pobl i ddefnyddio'r system wrthdroi trefniadau preifat llwyddiannus.[26] Byddai galluogi rhieni i wneud trefniadau preifat yn caniatáu iddynt gymryd cyfrifoldeb am benderfynu ar gynhaliaeth cynnal plant ac yn rhoi ffocws mwy penodol i wasanaeth y wladwriaeth. Lle na all rhieni wneud trefniadau rhyngddynt eu hunain, byddant yn gallu dewis defnyddio system y wladwriaeth. Bydd hyn yn rhoi gwasanaeth wrth gefn i atal rhieni rhag osgoi eu cyfrifoldebau.

Argymhelliad: Dileu'r orfodaeth i rieni â gofal sy'n cael budd-daliadau wneud cais am gynhaliaeth cynnal plant.

Diystyru cynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal

23. Fe'i gwnaed yn orfodol i rieni â gofal a oedd yn cael budd-daliadau ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant fel y gallai'r wladwriaeth adennill y gynhaliaeth a dalwyd gan rieni dibreswyl. O dan reolau'r hen gynllun, mae'r holl gynhaliaeth a delir gan rieni dibreswyl yn mynd i'r wladwriaeth i wrthbwyso cost budd-daliadau. Mae rheolau'r cynllun newydd yn caniatáu i rieni â gofal sy'n cael budd-daliadau gadw hyd at £10 o unrhyw gynhaliaeth a delir. Mae hyn yn effeithio ar y cymhellion i rieni â gofal a rhieni dibreswyl gydweithredu â'r system. Cymhellion cyfyngedig sydd gan rieni â gofal i gydweithredu; waeth faint y mae'r rhiant dibreswyl yn ei dalu, y mwyaf y byddant yn ei gael yw £10 (os ydynt yn rhan o'r cynllun newydd a dim byd os ydynt yn rhan o'r hen gynllun[27]). Yn yr un modd, waeth faint o

gynhaliaeth y mae'r rhieni dibreswyl yn ei thalu, y mwyaf y bydd eu plentyn yn cael yw £10 yr wythnos. Mae lleihau'r cymhellion i gydweithredu tra'n gwneud i bobl ddefnyddio'r system yn ei gwneud yn anodd i'r system gyflawni. Dim ond os caniateir i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau gadw'r holl gynhaliaeth neu'r rhan fwyaf ohoni y byddant yn gwneud trefniadau preifat. Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu y gall caniatáu i bobl gadw cynhaliaeth gael effaith gadarnhaol o ran cydymffurfio.[28]

24. Byddai diystyru mwy o gynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal[29] yn cael effaith gadarnhaol ar dlodi plant, gan fod hynny'n cynyddu'r arian sy'n cyrraedd rhieni â gofal. Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu y byddai diystyru cynhaliaeth yn llwyr mewn cyfrifiadau budd-dal yn codi rhwng 80,000 a 90,000 o blant ychwanegol allan o dlodi. Byddai 30,000 o blant eraill yn cael eu codi allan o dlodi o ganlyniad i'r cynnydd disgwyliedig yn nifer yr achosion â rhwymedigaeth gadarnhaol a gwelliannau o ran cydymffurfio.[30]

Ffigur 3. **Nifer y plant a gaiff eu codi allan o dlodi**



Ffynhonnell: Dadansoddiad y tîm Ailgynllunio gan ddefnyddio Wikeley N et al, 2001, Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152, Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006 a'r Arolwg o Adnoddau Teuluoedd.

25. Yn ogystal â chynyddu nifer y trefniadau preifat a nifer y plant sy'n cael cynhaliaeth, byddai dileu'r orfodaeth o ran budd-daliadau a diystyru cynhaliaeth hefyd yn dod â manteision gweithredol sylweddol. Bydd caniatáu i rieni wneud eu trefniadau eu hunain yn lleihau'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth gweinyddol, a byddai diystyru cynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal yn gwneud y prosesau gweinyddol yn symlach. Ni fyddai unrhyw fanteision gweithredol sylweddol yn sgîl amrywio'r lefelau diystyru presennol tra'n parhau i orfodi hawlwyr i ddefnyddio'r gwasanaeth gweinyddol.

A allai diystyru llawn leihau cymhellion i weithio?

26. Mae diystyru cynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal yn cynyddu incwm allan o waith. Byddai'r holl gynhaliaeth a geid yn cael ei thalu'n uniongyrchol i'r rhiant â gofal. Mae damcaniaeth economaidd yn awgrymu y gallai diystyru gymell pobl i beidio â symud i waith am ei fod yn gostwng y budd ariannol ychydig.[31]

27. Mae effeithiau gwrthbwyso sy'n lleihau unrhyw effaith negyddol. Byddai diystyru Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor yn llwyr (y tu hwnt i'r lefel ddiystyru bresennol o £15) yn cynyddu incwm mewn gwaith yn ychwanegol at gyflogau i rai pobl. Mae hyn yn golygu y bydd rhieni â gofal yn parhau i gael budd ariannol yn sgîl symud i waith. Mae cynhaliaeth hefyd yn tueddu i fod yn ffynhonnell incwm gyfnewidiol, ac felly byddai risg yn gysylltiedig â phenderfynu parhau i gael budd-daliadau ar sail incwm cynhaliaeth.

28. Mae diystyru cynhaliaeth yn rhannol eisoes yn bodoli ar ffurf y Premiwm Cynhaliaeth Plant. Ar hyn o bryd, gall rhiant â gofal sy'n cael Cymhorthdal Incwm (o dan y cynllun newydd) gadw £10 yr wythnos o'r gynhaliaeth a delir. Nid oes tystiolaeth bod hyn wedi cael unrhyw effaith negyddol ar gymhellion gweithio rhieni â gofal. Mae ymchwil o'r Unol Daleithiau wedi dangos bod effaith diystyru yn agos at ddim a bod taliadau cynnal plant mwy yn cael effaith (gadarnhaol) fwy.[32]

29. Yn ogystal, i lawer o rieni â gofal, mae cynhaliaeth yn gyfran fach o gyfanswm eu hincwm o gymharu ag effaith budd-daliadau a chredydau treth eraill. Mae gan ryw 60 y cant o rieni â gofal sy'n cael budd-dal o dan y cynllun newydd gyfrifiad o £10 yr wythnos neu lai.[33]

30. Cynhaliodd rhaglen cynnal plant Wisconsin werthusiad aml-ddull dros sawl blwyddyn o bolisi diystyru llawn. Trosglwyddodd y cyfranogwyr yn y rhaglen o ddiystyru rhannol i ddiystyru llawn. Dyma'r un sefyllfa a fyddai'n cael ei hwynebu gan gleientiaid sy'n cael y Premiwm Cynhaliaeth Plant eisoes wrth drosglwyddo i ddiystyru llawn. Ni welodd yr ymchwilwyr unrhyw dystiolaeth o unrhyw effaith negyddol ar lefelau cyflogaeth. Cynyddodd taliadau cynnal plant a chafwyd mwy o gydweithredu â'r system ffurfiol.[34]

A allai diystyru cynhaliaeth annog cydberthnasau i chwalu?

31. Mewn achosion lle y mae'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau ac mae'r rhiant dibreswyl mewn gwaith, mae diystyru cynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal yn cynyddu'r incwm sydd ar gael y tu allan i gydberthynas, oherwydd gall y rhiant â gofal gael budd-daliadau a chynhaliaeth plant. Mewn egwyddor, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer y cydberthnasau sy'n chwalu.

Fodd bynnag, ni ddengys ymchwil lawer o dystiolaeth o hyn. Mae incwm uwch yn gwella annibyniaeth ariannol rhieni â gofal, ond dim ond pan fydd y penderfyniad yn union gytbwys y bydd hyn yn effeithio ar gymhellion i wahanu.[35]

32. Fel gyda chymhellion i weithio, mae natur gyfnewidiol cynhaliaeth yn golygu bod newid polisi diystyru yn annhebygol o fod yn ffactor o ran cydberthnasau yn chwalu. Mae llawer o ddigwyddiadau a ffactorau yn chwarae rhan wrth ddechrau a therfynu cydberthnasau. Gofynnodd arolwg yr Asiantaeth Cynnal Plant o gleientiaid yn 2001 beth oedd y prif reswm dros wahanu oddi wrth eu partner: ni ddywedodd yr un cleient mai'r rheswm oedd am y byddent yn well eu byd yn ariannol.[36] Canfu adolygiad o dystiolaeth Ewropeaidd fod dylanwad lefelau budd-daliadau ar ymddygiad a phenderfyniadau teulu yn fach, am mai dim ond un rhan o becyn ehangach o gymhellion yw budd-daliadau.[37]

33. I lawer o rieni â gofal, swm bach yw cynhaliaeth cynnal plant ac felly effaith fach iawn fyddai'n ei chael ar incwm eu cartref. Mae rhieni sy'n gwahanu yn wynebu costau byw uwch gan redeg dau gartref unigol nag y maent os ydynt yn aros gyda'i gilydd. Mae gwrthbwysedd cryf i unrhyw gynnydd posibl yn yr incwm sydd ar gael, o gofio mai dim ond £20 yr wythnos (£24 o dan y cynllun newydd) yw'r rhwymedigaeth cynhaliaeth ar gyfartaledd.

34. Dim ond lle y bo gan y rhiant dibreswyl incwm uchel y mae cynhaliaeth cynnal plant yn debygol o fod yn ffactor pwysig. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, mae'n annhebygol y bydd diystyru yn gorbwyso'r cymhelliant ariannol cryf i'r rhiant â gofal aros yn y berthynas. Fel arfer mae gwahanu yn golygu gostyngiad mawr mewn incwm i'r rhiant â gofal. Mae cryn dystiolaeth sy'n dangos y gostyngiad mewn safon byw, sy'n sylweddol yn aml, sy'n debygol o gael ei wynebu gan ofalwyr a phlant.[38] Mae tystiolaeth yn awgrymu bod incwm net merched yn gostwng cymaint â 18 y cant ar ôl gwahanu.[39] Mae rhyw 48 y cant o blant mewn cartrefi rhieni unigol mewn tlodi (ar ôl costau tai) o gymharu ag 20 y cant mewn cartrefi parau.[40]

35. Y ffordd orau o ran ymdrin â'r pryder ynghylch dylanwad cymorth ariannol y llywodraeth ar berthynas yw drwy gynyddu cymorth i barau yn y system dreth a budd-daliadau drwy ddefnyddio dulliau sy'n cael mwy o effaith ar incwm y cartref, megis datblygu premiymau parau.

Ymdrin ag achosion incwm uchel

36. Mae diystyru cynhaliaeth yn annhebygol o annog parau ag incwm uchel i wahanu. Fel y trafodwyd uchod, nid yw effaith diystyru yn gorbwyso'r cymhelliant ariannol i aros gyda'i gilydd. Ond mae risg y byddai diystyru llawn yn caniatáu i nifer fach o rieni â gofal hawlio

Cymhorthdal Incwm tra'n cael lefelau uchel o gynhaliaeth gan gyn-bartner cyfoethog hefyd. Pe diystyrid cynhaliaeth yn llawn, ni fyddai rhwystr i'r rhiant â gofal rhag hawlio budd-daliadau. Dim ond i grŵp bach o gleientiaid y byddai hyn yn gymwys, ond mae angen cam diogelu i atal rhieni â gofal sy'n cael symiau mawr o gynhaliaeth rhag cael cymorth ariannol sylweddol gan y wladwriaeth hefyd.

37. Gallai fod yn ofynnol i rieni â gofal sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm ddatgan unrhyw gynhaliaeth a gânt dros y trothwy uchel. Dros y lefel hon, byddai cynhaliaeth yn cael ei hystyried yn y cyfrifiad budd-dal. Yn ymarferol, mae'n debygol y byddai llawer o rieni â gofal sy'n cael symiau mawr o gynhaliaeth yn dewis peidio â hawlio Cymhorthdal Incwm. Wrth benderfynu ar lefel y trothwy a sut i'w weithredu, dylid rhoi blaenoriaeth uchel i leihau'r gwaith gweinyddol sydd ei angen. Dylid anelu at ddal nifer gyfyngedig o bobl yn unig â phroses ysgafn sy'n gyson â gweithdrefnau eraill yn y system budd-daliadau. Cyhyd ag y pennir y trothwy ar lefel sy'n fwy na £40 yr wythnos, ni fydd gwahaniaeth mawr yn yr effaith ar dlodi plant rhwng yr ymagwedd hon a diystyru llawn o ran Cymhorthdal Incwm.

38. Ar hyn o bryd, caiff cynhaliaeth ei ddiystyru'n llawn wrth gyfrifo Credyd Treth Plant. Byddai pennu trothwy uchel ar gyfer datgan cynhaliaeth o ran Cymhorthdal Incwm yn golygu bod y ddau fath o gymorth y wladwriaeth yn anghyson. Gallai'r Llywodraeth ystyried yr opsiwn o gyfyngu ar y diystyru o ran Credyd Treth Plant, er y byddai angen gwaith pellach i asesu'r ymarferoldeb gweinyddol.

Argymhelliad:

a) Diystyru cynhaliaeth cynnal plant hyd at drothwy uchel wrth gyfrifo Cymhorthdal Incwm.

b) Diystyru cynhaliaeth cynnal plant yn gyfan gwbl wrth gyfrifo Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

5 Y system wedi'i hailgynllunio

Dulliau o gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant

39. Mae dileu'r cyfyngiadau presennol sy'n effeithio ar rai rhieni yn creu tri dull o gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant:

- Preifat: ar gyfer rhieni sy'n fodlon cytuno ar gynhaliaeth cynnal plant ac sy'n gallu gwneud hynny heb i'r wladwriaeth na'r system gyfreithiol gymryd rhan.
- Cyfreithiol: ar gyfer rhieni sydd am gadarnhau trefniadau preifat neu gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant fel rhan o setliad ehangach, gellir cael gorchymyn cydsynio lle nad oes anghydfod ynghylch y trefniadau.[41]
- Gweinyddol: ar gyfer rhieni na allant gytuno'n breifat neu drwy gydsyniad neu sy'n anfodlon gwneud hynny, bydd gwasanaeth gweinyddol yn cyfrifo cynhaliaeth, pennu a monitro taliadau a gorfodi cydymffurfiaeth lle y bo angen.

Ffigur 4. **Opsiynau ar gyfer gwneud trefniadau cynnal plant**



Byddai rhieni â gofal yn gallu dewis peidio â chael unrhyw drefniant cynhaliaeth.

40. Mae'r system wedi'i hailgynllunio yn creu'r cymhellion cywir i rieni â gofal wneud trefniadau cynnal plant. O ganlyniad, disgwylir y bydd cyfanswm nifer y plant sy'n cael cynhaliaeth yn codi. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad oes gan rieni â gofal lawer o wybodaeth am y rhiant dibreswyl neu'n gwybod na all y rhiant dibreswyl dalu

cynhaliaeth, efallai y byddant yn penderfynu nad oes diben ceisio gwneud trefniant. Fel arall, efallai y bydd rhieni â gofal yn penderfynu, er budd gorau eu plant, i beidio â cheisio gwneud trefniant, er enghraifft lle y bo gan y rhiant dibreswyl hanes o drais neu lle y byddai gwneud trefniant yn achosi gwrthdaro rhwng y rhieni. Ar hyn o bryd, mewn tua 10,000 o achosion o'r fath y flwyddyn, caiff rhieni eu gorfodi i gyfiawnhau eu penderfyniad i beidio â threfnu cynhaliaeth cynnal plant, a elwir yn 'achos da', er mwyn mynd ymlaen â'u cais am fudd-dal.[42]

Rhoi gwybodaeth a chyngor i rieni

41. Rhan hanfodol o sicrhau bod y system newydd yn gweithio'n effeithiol yw rhoi'r cymorth a'r wybodaeth gywir i gleientiaid. Gallai cael cyngor ar y camau cynnar helpu rhieni i benderfynu ar y dull mwyaf priodol iddynt wneud trefniant cynnal plant sy'n gweithio. Mae amrywiaeth o wasanaethau yn bodoli eisoes i gefnogi rhieni y mae eu perthynas wedi chwalu neu yn chwalu. Gall rhieni gael cymorth gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys:

- Cychwyn Cadarn a Chanolfannau Plant;
- ysgolion estynedig;
- asiantaethau cymorth i deuluoedd;
- Canolfan Byd Gwaith;
- canolfannau cyngor awdurdodau lleol;
- gwasanaethau cyfryngu teuluol;
- y sector di-elw ehangach, gan gynnwys Canolfannau Cyngor ar Bopeth.

42. Er bod amrywiaeth o wybodaeth ar gael i rieni, nid yw darparu gwybodaeth yn nodwedd amlwg iawn yn y system cynnal plant bresennol. Mewn system lle mai'r brif ystyriaeth yw cyfrifoldeb rhieni, bydd yn gynyddol bwysig bod rhieni yn cael y wybodaeth a'r cyngor cywir ac y cânt eu cefnogi wrth wneud trefniadau. Mae'r cynnydd disgwyliedig yn y niferoedd sy'n debygol o wneud trefniadau preifat yn awgrymu y bydd mwy o alw am wasanaethau cymorth.

43. Darperir gwasanaethau cymorth a chyngor gan y sector preifat a di-elw yn bennaf, a dylai ehangu'r capasiti hwn gael effaith gadarnhaol. Mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd a pherthnasau sy'n chwalu, a ddarperir ar y cyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Materion Cyfansoddiadol, wedi cynyddu'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i rieni a pha mor hawdd y gallant gael gafael arni.

44. Mae ymchwil yn dangos y dylai dileu'r orfodaeth i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am drefniadau a wneir y tu allan i'r system weinyddol.[43] Mae dealltwriaeth wael ynghylch sut y cyfrifir cynhaliaeth cynnal plant, lle nad yw 50 y cant o gleientiaid o dan yr hen gynllun yn deall eu cyfrifiad cynhaliaeth,[44] yn awgrymu bod lle i wella'r wybodaeth sydd ar gael i rieni. Er y gwneir defnydd helaeth o gyfrifiadur ar-lein yr Asiantaeth Cynnal Plant,[45] dylid sicrhau bod hynny, ynghyd â chynhyrchion hunan-gyfrifo eraill, ar gael yn haws i rieni er mwyn darparu meincnod ar gyfer negodiadau.

45. Un o rolau pwysig y gwasanaethau cymorth yw sicrhau bod grwpiau diamddiffyn, a allai fod wedi'u gorfodi i ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant fel cleientiaid budd-daliadau o'r blaen, yn cael cyngor llawn ar y dull mwyaf priodol o drefnu cynhaliaeth cynnal plant. Mae gwasanaethau presennol yn gwneud llawer eisoes i ddarparu gwybodaeth o safon. Wrth i ddewisiadau newydd ddod ar gael, bydd yn hanfodol gwneud unrhyw rieni a allai gael budd ariannol o'r system newydd yn ymwybodol o hyn. Nid yw bod yn ddiamddiffyn yn golygu bod yn ddiamddiffyn yn ariannol yn unig. O'r blaen, bu'n rhaid i rieni â gofal sy'n cael budd-daliadau sydd mewn perygl o drais yn y cartref ddatgan 'achos da', gan egluro pam y byddai defnyddio'r Asiantaeth yn creu perygl iddynt hwy neu eu plant. Yna trafodir y cais hwn â swyddog budd-daliadau ac os nas derbynnir gall arwain at ostyngiad mewn budd-daliadau. Mae dileu'r orfodaeth o ran budd-daliadau yn golygu na fyddai angen cynnal y broses hon.

46. Yn ogystal, mae lle i wella rôl awdurdodau lleol wrth ddarparu cyngor ymhellach, o bosibl drwy roi gwybodaeth drwy Ganolfannau Plant fel rhan o fath integredig o gymorth i deuluoedd. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn ffynhonnell wybodaeth berthnasol i rieni unigol sy'n hawlio budd-dal hefyd. Ar ôl gwerthuso eu heffeithiolrwydd, dylem edrych ar Ganolfannau Adnoddau i Deuluoedd Awstralia a fydd yn dod â gwybodaeth i deuluoedd sy'n gwahanu ynghyd.[46]

47. Disgwylir mai'r rhieni sydd wedi cael cyfnod chwalu perthynas anodd neu lle nad oedd perthynas yn bodoli fydd yn defnyddio'r gwasanaeth gweinyddol. Mae cleientiaid o'r fath yn llai addas ar gyfer gwasanaethau cyfryngu. Fodd bynnag, mae lle i wella'r broses o gyfeirio pobl at gyfryngu ariannol a gwasanaethau datrys anghydfod amgen er mwyn helpu cleientiaid i wneud eu trefniadau eu hunain.

48. Mae llawer o'r gwasanaethau sydd ar gael eisoes yn rhoi gwybodaeth a chymorth i rieni, nid dim ond o ran y dewisiadau sydd ar gael iddynt ond hefyd o ran beth mae rhianta yn ei olygu. Yn ddi-au, dyma un o'r rolau mwyaf anodd i unrhyw oedolyn, a gall fod yn arbennig o anodd i rieni ar ôl i berthynas chwalu. Nod

Strategaeth Rianta'r Llywodraeth, drwy waith gyda sefydliadau megis y Sefydliad Teuluoedd a Rhianta Cenedlaethol a'r Gronfa Rianta,[47] yw cefnogi gwaith y sector di-elw gyda rhieni. Mae 'Agenda Parch' y Swyddfa Gartref wedi pwysleisio bod cefnogi rhieni a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn gyfrifol yn allweddol wrth fynd i'r afael â phroblemau megis ymddygiad gwrthgymdeithasol.[48] Yn ddiweddar, cydnabu'r Llywodraeth yr heriau arbennig sy'n wynebu tadau, ac ariannodd yr Adran Addysg a Sgiliau 'Dad Pack', a gyhoeddwyd gan Fathers Direct, gyda gwybodaeth i dadau.[49]

49. Mae angen ymagwedd newydd i sicrhau y gellir integreiddio cyngor ar faterion o ran cynnal plant o fewn yr amrywiaeth ehangach o wasanaethau a ddarperir ar gyfer rhieni ar hyn o bryd. Mae angen ymdrech ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn. Dylai hyn gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau presennol y llywodraeth ymhellach er mwyn cefnogi rhieni ar ôl iddynt wahanu.

Argymhelliad: Ailgyflunio gwasanaethau cyngor i sicrhau y caiff gwybodaeth cynnal plant ei hintegreiddio'n briodol. Dylai grŵp trawslywodraethol ddatblygu'r manylion am hyn.

Defnyddio'r system gyfreithiol

50. Ar hyn o bryd, mae'r system gyfreithiol yn rhoi dull i'r rhai nad ydynt yn hawlio budd-daliadau drefnu cynhaliaeth cynnal plant. Mae tua 10,000 o bobl y flwyddyn yn defnyddio'r dull hwn er mwyn gwneud gorchymyn cydsynio sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer taliadau cynnal plant.[50] Ar y cyfan, mae'r taliadau hyn yn rhan o becynnau cymorth atodol i barau sy'n ysgaru neu'n rhan o setliad ariannol i barau a oedd yn arfer cyd-fyw.

51. Mae gorchmynion cydsynio yn rhoi ffordd i rieni a all gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant yn breifat gadarnhau eu trefniadau yn y llysoedd. Gall y llysoedd amrywio gorchmynion cydsynio er mwyn adlewyrchu newid mewn amgylchiadau a gallant eu gorfodi ar gais y rhiant â gofal. Gall camau gorfodi gynnwys yr holl gosbau sydd ar gael i'r llysoedd. Dylai gorchmynion cydsynio roi'r sicrwydd i rieni a all gytuno ar gynhaliaeth plant ond a allai fod â phryderon ynghylch cydymffurfiaeth barhaus. Dim ond i rieni a all gytuno ar drefniadau cynnal plant y byddai defnyddio'r system gyfreithiol yn opsiwn.

52. Bu nifer o sylwadau yn awgrymu y dylai fod gan y llysoedd fwy o bŵer i benderfynu ar gynhaliaeth cynnal plant mewn achosion lle y mae angen datrys materion ariannol eraill rhwng y rhieni. Er bod peth gwerth i'r cynnig hwn, mae'n peri'r risg o gynyddu'r baich ar y llysoedd yn sylweddol o ran yr hyn sy'n broses gyfrifo gymharol syml. Nid yw'n glir a yw'r manteision posibl yn gorbwyso'r risgiau

hyn. O dan fy nghynigion, byddai'r llysoedd yn gallu cadarnhau trefniadau a wneir gyda chysyniad y ddau barti ond ni fyddai ganddynt awdurdodaeth i osod setliadau cychwynnol. Lle na all rhieni benderfynu ar faterion rhyngddynt eu hunain, byddai'n rhaid iddynt ddefnyddio'r system weinyddol.

53. Bydd diddymu'r orfodaeth ar hawlwyr budd-daliadau i ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant yn galluogi'r rhai sydd am ddilysu cytundeb preifat drwy orchymyn cydsynio i wneud hynny drwy'r llysoedd. Prif effaith hyn fydd galluogi'r hawlwyr budd-daliadau sy'n ysgaru neu'n gwahanu oddi wrth bartner y maent yn cyd-fyw â hwy i gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant fel rhan o setliad ariannol ehangach.

54. I rieni ar incwm isel a budd-daliadau, dylai'r dull hwn gael ei ariannu gan gymorth cyfreithiol. Bydd yn rhaid i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol dalu i wneud gorchymyn cydsynio, ond mewn achosion lle y cytunir ar gynhaliaeth cynnal plant fel rhan o setliad ariannol ehangach, mae hyn yn debygol o fod yn gost fach iawn. Mae angen gwaith pellach i ddarparu ffigurau costau manwl.

55. Mae agor y dull cyfreithiol yn debygol o arwain at gynnydd o ran gwaith i'r system gyfreithiol o rhwng 15,000 a 25,000 o achosion y flwyddyn.[51] Bydd hyn yn cynnwys rhieni â gofal yn bennaf a orfodir i ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant ar hyn o bryd. Bydd rhieni o'r fath wedi bod yn briod neu'n cyd-fyw o'r blaen a bydd ganddynt faterion ariannol eraill i'w datrys. Maent yn debygol o allu trefnu cynhaliaeth plant drwy gydsyniad heb fod angen cynnal gwrandawiad llys.

56. Mae caniatáu i rieni fynd ar drywydd cynhaliaeth cynnal plant drwy'r dull cyfreithiol neu'r dull gweinyddol yn gofyn am ffin amlwg rhwng y ddwy system. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn atal rhieni rhag ceisio symud rhwng y dulliau gwahanol er mwyn sicrhau'r canlyniadau unigol gorau. Byddai gwneud hyn yn dyblygu adnoddau ac yn caniatáu i rieni ddefnyddio dulliau gwahanol er mwyn cael mantais ar ei gilydd. Er mwyn cadw awdurdodaethau ar wahân ar gyfer y dulliau gweinyddol a chyfreithiol, ar ôl i rieni ddewis defnyddio'r dull cyfreithiol, bydd yn rhaid iddynt barhau i ddefnyddio'r dull hwn hyd nes na fydd angen cynhaliaeth plant mwyach. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i rieni sy'n gwneud gorchymyn cydsynio ymdrin ag unrhyw gais i amrywio neu gamau gorfodi drwy'r llysoedd.

57. O dan y system bresennol, lle y mae gorchymyn cydsynio newydd ar waith, mae gan y llys awdurdodaeth dros newidiadau i'r gorchymyn yn ystod y 12 mis cyntaf. Dim ond ar yr amod nad yw'r naill riant na'r llall yn ceisio gwrthdroi'r gorchymyn drwy wneud cais i'r Asiantaeth Cynnal Plant, neu fod y rhiant â gofal yn dechrau cael budd-daliadau y bydd ganddo awdurdodaeth ar ôl 12 mis. Mae'r gallu i symud rhwng systemau ar ôl blwyddyn ynddo'i hun yn gallu creu ansefydlogrwydd a lleihau'r cymhelliant i ddod i gytundeb cychwynnol.

58. Rwyf yn argymell na ddylai fod yn bosibl gwrthdroi gorchmynion cydsynio a geir drwy'r llysoedd gan y system weinyddol. Byddai hyn yn dileu'r terfyn 12 mis presennol sy'n galluogi rhieni i symud rhwng gorchmynion cydsynio a'r system weinyddol. Byddai'r gorchymyn gan y llys yn cael blaenoriaeth a byddai'r llysoedd yn dod yn gyfrifol am amrywio a gorfodi gorchmynion cydsynio, gan gysylltu achosion o'r fath â'r system gyfreithiol i bob diben. Byddai hyn yn trin gorchmynion cydsynio newydd yn yr un ffordd a'r rhai a wnaed cyn 2003. Byddid yn penderfynu ar amrywiadau i'r gorchymyn gwreiddiol drwy'r llysoedd pe na allai'r rhieni gytuno arno. Disgwylir y bydd hyn yn ychwanegu nifer fach o wrandawiadau llys bob blwyddyn. Mae angen gwaith pellach i fodelu'r nifer o rieni sy'n debygol o ddefnyddio'r dull hwn i gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant ac asesu'r effaith fanwl y byddai hyn yn ei chael. Dylai'r gwaith hwn gynnwys dadansoddi pellach ar yr effaith ar lwyth achosion y llysoedd a'r costau o ganlyniad i hynny.

Ffigur 5. **Creu ffin awdurdodaethol glir**



Argymhelliad: Dileu'r terfyn presennol o 12 mis, gan atal gorchmynion cydsynio rhag cael eu gwyrdroi gan y sefydliad gweinyddol, yn unol â'r sefyllfa cyn 2003.

Darparu dull gweinyddol i'r rhai na allant gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant

59. Byddai rhieni na allant wneud eu trefniadau eu hunain neu y mae eu trefniadau preifat yn chwalu yn gallu defnyddio'r dull gweinyddol i drefnu cynhaliaeth cynnal plant. Bydd y trefniadau yn debyg i'r sefyllfa bresennol, a bydd sefydliad yn gyfrifol am ddarparu cynhaliaeth cynnal plant i'w gleientiaid. Byddai'r sefydliad yn darparu'r swyddogaethau canlynol:

- olrhain rhieni dibreswyl;
- cyfrifo taliadau cynhaliaeth yn ôl fformiwla gyhoeddedig;
- casglu cynhaliaeth gan rieni dibreswyl a'i thalu i rieni â gofal;
- monitro cydymffurfiaeth barhaus;
- gorfodi trefniadau lle na thelir cynhaliaeth.

60. Byddai'n rhaid i rieni sydd am ddefnyddio'r dull gweinyddol wneud cais am drefniant cynnal plant. Gallai'r naill riant neu'r llall wneud hyn. Ar ôl cael cais, byddai'n rhaid i'r ddau barti roi'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn i'r gynhaliaeth gael ei chyfrifo. Ar ôl cyfrifo'r gynhaliaeth i'w thalu, byddai'r sefydliad gweinyddol yn pennu rhestr taliadau ar gyfer y rhiant dibreswyl. Byddai wedyn yn casglu'r gynhaliaeth ac yn trosglwyddo'r taliad i'r rhiant â gofal. Byddai cydymffurfiaeth barhaus yn cael ei monitro ac os byddai cynhaliaeth yn dod i ben ar unrhyw adeg, byddai'r camau gorfodi angenrheidiol yn cael eu cymryd.

61. Disgwylir y bydd y cleientiaid a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth gweinyddol yn wahanol iawn i gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant. Mae dileu'r orfodaeth o ran budd-daliadau yn debygol o leihau llwyth achosion y sefydliad gweinyddol, gan ei alluogi i ganolbwyntio ar achosion lle y mae rhieni yn cael anhawster i gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant. Bydd diystyru'r rhan fwyaf o gynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal hefyd yn gwella'r cymhellion i rieni â gofal a rhieni dibreswyl gydweithredu â'r system.

Cyflawni dros blant

62. Dylai agor y dulliau y gall rhieni eu defnyddio i drefnu cynhaliaeth cynnal plant gynyddu nifer y plant sy'n cael cynhaliaeth. Mae dau brif reswm dros hyn. Yn gyntaf, mae diystyru cynhaliaeth mewn cyfrifiadau budd-dal yn cynyddu cymhellion rhieni i wneud trefniadau; gall rhieni â gofal gadw'r gynhaliaeth a delir ac mae rhieni dibreswyl

yn gwybod bod y gynhaliaeth y maent yn ei thalu yn mynd i'w plentyn. Yn ail, disgwylir y bydd caniatáu i rieni ddewis y dull mwyaf priodol iddynt gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant yn golygu bod pobl yn fwy bodlon ar y trefniadau, gan arwain at gydymffurfiaeth well. Mae dileu cyfranogiad trydydd parti o'r trefniadau cynnal plant lle mae'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau yn gysylltiedig â hyn. Gall y polisi presennol gael effaith negyddol ar gydymffurfiaeth. Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu, o dan y system a ailgynlluniwyd, y gallai rhwng 250,000 a 400,000 mwy o blant gael cynhaliaeth nag yr hyn a gyflawnir drwy gyflwyno'r Cynllun Gwella Gweithredol.[52]

63. Yn ogystal â sicrhau manteision i blant, dylai'r system wedi'i hailgynllunio fod yn fwy cost-effeithiol hefyd. Bydd cynyddu nifer y rhieni sy'n gwneud eu trefniadau eu hunain yn arwain at rôl lai i'r wladwriaeth. Dylai llai o rieni yn defnyddio'r gwasanaeth gweinyddol i gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant, ynghyd â gwelliannau polisi a gwelliannau gweithredol, arwain at weithrediad symlach a mwy effeithlon. Yn yr hirdymor, disgwylir y bydd hyn yn arbed rhyw £200 miliwn.[53]

Ffigur 6. **Nifer y plant sy'n cael cynhaliaeth**



Ffynhonnell: Dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau/tîm Ailgynllunio gan ddefnyddio Wikeley N et al, 2001, Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152 a Chrynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

6 Cymryd gorfodi o ddifrif

64. Mae gan waith gorfodi cynnal plant hanes gwael. Er gwaethaf y ffaith bod gan yr Asiantaeth Cynnal Plant amrywiaeth eang o bwerau, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio'r llysoedd i garcharu rhieni dibreswyl sy'n methu â thalu'n gyson, ni chaiff cosbau eu defnyddio'n rheolaidd, ac mae diwylliant o ddiffyg cydymffurfio wedi datblygu. Nid yw'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi rhoi blaenoriaeth i waith gorfodi ac nid oes digon o adnoddau wedi'u rhoi i'r maes. Mae hyn wedi niweidio hygrededd yr Asiantaeth ac wedi arwain at sefyllfa annerbyniol lle y mae rhieni dibreswyl yn credu y gallant anwybyddu'r Asiantaeth a pheidio â chael eu cosbi am wneud hynny.[54] Ni ellir caniatáu i hyn barhau. Er bod yr Asiantaeth yn cymryd camau i wella gorfodi drwy ei Chynllun Gwella Gweithredol, gan gynnwys dyrannu mwy o adnoddau i'r swyddogaeth, mae lle i gymryd camau pellach. Er mwyn annog rhieni i gymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant, mae angen i'r wladwriaeth nodi y caiff camau cyflym ac effeithiol eu cymryd pan na fydd hyn yn digwydd.

65. Mae problemau'r Asiantaeth Cynnal Plant o ran gorfodi yn deillio o gyfuniad o fethiannau sefydliadol a gweinyddol. Mae gorfodi yn swyddogaeth arbenigol, sy'n gofyn am sgiliau, prosesau a chymhellion penodol. Nid oes lle amlwg iddo ar hyn o bryd mewn sefydliad sy'n canolbwyntio ar negodi â rhieni a cheisio rheoli problemau emosiynol anodd. Am y rheswm hwn, argymhellir y dylid creu cangen orfodi ar wahân gyda'i chyfundrefn rheoli perfformiad ei hun. Bydd hyn yn helpu i godi'r proffil ac yn anfon neges glir i rieni nad ydynt yn talu na chaiff hyn ei oddef mwyach ac y caiff camau effeithiol, cyflym eu cymryd yn eu herbyn.

66. Mae rheoli gwaith gorfodi fel swyddogaeth fusnes ar wahân hefyd yn cyd-fynd yn dda â'r model comisiynu yr wyf wedi'i gynnig (gweler adran 8 ar dudalen 40 ar 'Model gweithredu newydd') ac mae'n codi'r gobaith yn y tymor hwy y caiff gwasanaethau o'r fath eu rhannu ar draws y llywodraeth mewn un canolfan arbenigedd.

67. O dan y system bresennol, nid oes gan riant â gofal yr hawl i orfodi cais am gynhaliaeth cynnal plant yn erbyn rhiant dibreswyl nad yw'n talu. Mae nifer o randdeiliaid wedi dadlau y dylid newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu gorfodi annibynnol o'r fath. Byddai cam o'r fath yn cyd-fynd â'r rhesymeg o ran rhoi mwy o gyfrifoldeb unigol i rieni. Fodd bynnag, byddai hefyd yn peri rhywfaint o risg o ddyblygu ymdrech rhwng y systemau gweinyddol a system y llysoedd. Un opsiwn fyddai caniatáu i rieni â gofal gael yr hawl i orfodi, ond dim ond pe bai tystiolaeth glir nad oedd y gwasanaeth gweinyddol wedi

gwneud hynny'n effeithiol (er enghraifft drwy beidio â chymryd camau o fewn cyfnod o ddiffyg cydymffurfio diffiniedig). Dylid ystyried hyn ymhellach yng nghynllun manwl y system newydd.

68. Buaswn yn disgwyl i adolygiad o bolisi a gweithrediadau gael ei gynnal ochr yn ochr â threfniadau sefydliadol newydd o ran gorfodi er mwyn ystyried sut i sicrhau gorfodi effeithiol ac effeithlon yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys ymestyn yr amrywiaeth o bwerau sydd ar gael, er enghraifft drwy gyflwyno cosbau proffil uchel megis tynnu pasbortau yn ôl a defnyddio gweithdrefnau gweithredol gwell megis proffilio risg cleientiaid. Mae potensial hefyd i ddefnyddio'r pŵer i osod cosbau ariannol ar y rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Gallai hyn annog cydymffurfiaeth a chosbi'r rhai sydd wedyn yn achosi i adnoddau gorfodi gael eu gwario er mwyn mynd ar eu trywydd. Mae gan yr asiantaeth bresennol y pŵer i osod cosbau ariannol ond am resymau gweithredol, nid yw hwn wedi'i arfer. Dylid gwneud gwaith pellach i asesu effaith defnyddio cosbau ariannol yn y dyfodol.

Argymhelliad:

a) Rheoli gorfodi fel swyddogaeth fusnes ar wahân.

b) Cyflwyno cosbau newydd, gan gynnwys y pŵer i dynnu pasbortau yn ôl, a gwneud mwy o ddefnydd o bwerau presennol megis gosod cosbau ariannol.

7 Proses drosglwyddo lwyddiannus

Darparu sefydliad newydd

69. Bydd ailgynllunio'r system cynnal plant yn cael effaith fawr ar gylch gwaith, llwyth achosion a busnes craidd yr Asiantaeth Cynnal Plant. O gofio'r newid mawr o ran rôl, cwestiwn allweddol yw pa un a all yr Asiantaeth Cynnal Plant bresennol gyflawni'r gwaith neu pa un a oes angen sefydliad newydd. Er bod perfformiad yr Asiantaeth yn gwella a bod y tîm rheoli newydd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i sicrhau gwelliannau, nid oes sicrwydd y gwneir cynnydd pellach a pharheir i wynebu heriau mawr. Mae'r rhain yn ymwneud â materion wedi'u gwreiddio'n ddwfn megis diwylliant sefydliadol a brandio a fydd yn anodd iawn eu newid. Bydd newidiadau mawr i'r saernïaeth bolisi, cynllun systemau a'r ffordd y caiff y drefn cynnal plant ei gweithredu hefyd.

70. Mae'r etifeddiaeth o fethiannau yn y gorffennol yn fawr ac ni ellir caniatáu i hynny beryglu'r trefniadau newydd. Rhoddwyd y cyfrifoldeb dros fethiannau yn aml ar staff, a hynny'n annheg, am eu bod wedi gwneud eu gorau i gyflawni dros blant a rhieni tra'n ymdopi â saernïaeth systemau gwael a phroblemau TG mawr, ymhlith pethau eraill. Mae brand yr Asiantaeth Cynnal Plant wedi'i ddifrodi'n ddifrifol ac mae ei hygrededd ymhlith cleientiaid yn isel iawn. Mae gwasanaethau cwsmeriaid gwael wedi effeithio ar ganfyddiadau rhieni o allu'r Asiantaeth i gyflawni. Gwnaed sawl ymdrech dro ar ôl tro i ddiwygio'r Asiantaeth yn y gorffennol, heb lwyddiant. Mae cynlluniau i drosglwyddo achosion o dan yr hen gynllun i reolau'r cynllun newydd, ynghyd â'r broses fwriadedig o symud achosion o hen system TG i system TG newydd, wedi amlygu cymhlethdod ymdrin â dwy system ar yr un pryd a'r problemau y mae hyn yn eu creu o ran y gwaith gweinyddol ac i rieni. Mae'n rhaid dysgu gwersi er mwyn sicrhau na chaiff camgymeriadau blaenorol eu hailadrodd ac na chaiff y gwasanaeth ei ddifwyno gan fethiannau'r gorffennol. Byddai creu sefydliad newydd yn caniatáu toriad llwyr â'r gorffennol a byddai'n gwahanu'r broses o ddarparu'r drefn cynnal plant â'r gwaith o orfod ymdrin â hen ddyledion. Mae toriad llwyr yn cynyddu'r posibilrwydd y gall sefydliad newydd greu diwylliant newydd a hinsawdd o ddisgwyliadau.

71. Mae'r fframwaith polisi arfaethedig yn golygu y byddai'r dasg o ddarparu'r drefn gynnal plant yn wahanol iawn i'r dasg bresennol sy'n wynebu'r Asiantaeth Cynnal Plant. Byddai'r gwasanaeth gweinyddol yn ymdrin â llwyth achosion llawer llai,[55] yn bennaf

ymhlith y rhai sy'n ei chael fwyaf anodd cytuno ar gynhaliaeth cynnal plant. Fodd bynnag, byddai gan rieni â gofal gymhellion cryfach i gydweithredu â'r system. Mae terfynu'r orfodaeth yn golygu y byddai cleientiaid yn dewis defnyddio'r gwasanaeth gweinyddol, y byddai angen iddo weithredu yn llawer mwy fel darparwr gwasanaethau gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chyfeirio pobl at ffynonellau cymorth eraill. Byddai sicrhau bod y busnes gwahanol iawn hwn yn llwyddiant yn gofyn am newidiadau o ran y strwythur sefydliadol a'r broses o ddarparu gwasanaethau. O gofio model gweithredu a diwylliant sefydliadol yr asiantaeth bresennol, byddai'n amhosibl iddi drosglwyddo'n llwyddiannus i'r ffordd newydd hon o weithio, yn fy marn i.

72. Mae enghreifftiau a modelau busnes ar gyfer sicrhau bod ymagwedd toriad llwyr yn llwyddiant. Mae'r cymariaethau mwyaf uniongyrchol yn y sector preifat, lle y mae banciau a chwmnïau yswiriant wedi creu sefydliadau 'llyfr da/llyfr gwael' ar wahân, un i ddechrau o'r newydd a'r llall fel gweithrediad â therfyn amser i ddirwyn cyfres o asedau gwael i ben. Y wers sy'n deillio o weithrediadau llwyddiannus o'r fath yw bod y ddau weithgaredd yn gofyn am sgiliau, diwylliannau trefniannol a gweithdrefnau rheoli perfformiad gwahanol. Mae'r ymdrechion yn y gorffennol i ddiwygio'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi arwain at weithredu dwy system gyfochrog sydd wedi cyfrannu at broblemau o ran perfformiad. Mae hyn yn creu dadl gref yn erbyn cyflwyno cynllun arall o fewn yr asiantaeth bresennol.

73. Credaf fod rhesymau cryf sy'n cyfiawnhau toriad llwyr â'r Asiantaeth bresennol a chreu corff newydd gyda mandad i roi 'dechrau newydd' i'r drefn cynnal plant. Dylai'r corff hwn fod ar wahân i'r dasg o ymdrin â materion etifeddiaeth o'r system bresennol, gan gynnwys y dasg o reoli dyledion presennol. Rwyf yn argymell y dylid sefydlu corff newydd i ddarparu'r drefn cynnal plant gyda chorff gweddilliol yn gyfrifol am fynd ar drywydd yr hen ddyledion. Bydd staff presennol yn gysylltiedig â gwaith y corff gweddilliol a chânt y cyfle i ymuno â'r sefydliad gweinyddol newydd. Bydd gan dîm arwain yr Asiantaeth Cynnal Plant ran i'w chwarae wrth greu'r sefydliad newydd hefyd. Dylai enw'r corff newydd adlewyrchu ei amcan craidd, sef atgyfnerthu cyfrifoldebau rhieni.

Ffigur 7. **Sefydlir sefydliad newydd gan adael corff gweddilliol i ymdrin â materion etifeddiaeth**



Argymhelliad:

a) Creu sefydliad newydd i weinyddu'r drefn cynnal plant.

b) Creu corff gweddilliol â therfyn amser iddo i reoli a gorfodi hen ddyledion.

Beth mae hyn yn ei olygu i gleientiaid

74. Byddai'n rhaid i rieni a fyddai'n symud o'r trefniadau presennol i'r system wedi'i hailgynllunio wneud dewis clir rhwng yr opsiynau ar gyfer trefnu cynhaliaeth cynnal plant yn y dyfodol. Ni fyddai cleientiaid yn gallu aros gyda'r Asiantaeth Cynnal Plant bresennol. Byddai'n rhaid iddynt benderfynu ar y dull mwyaf priodol o drefnu cynhaliaeth cynnal plant.

75. Byddai'n rhaid i'r rhai fydd am wneud trefniadau drwy'r dull gweinyddol wneud cais arall i'r sefydliad newydd. Byddai hyn yn helpu i'w hannog i ystyried y dull gorau o wneud trefniadau, yn hytrach na derbyn yr opsiwn diofyn o barhau â'r sefyllfa bresennol. Byddai'n rhoi 'dechrau newydd' i rieni a'r corff gweinyddol newydd.

76. Byddai achosion y rhieni sy'n dewis ymuno â'r system newydd yn cael eu hailasesu. Byddai hyn yn golygu y byddai trefniadau cynnal plant yn cael eu gwneud o dan y fframwaith polisi wedi'i ailgynllunio.

Byddai hyn hefyd yn golygu bod achosion yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf a byddai'n dileu'r angen i bobl drosglwyddo. Er mwyn sicrhau bod cynhaliaeth yn parhau i gael ei thalu, ni fyddai trefniadau presennol yn dod i ben hyd nes bod trefniant newydd ar waith.

Ffigur 8. **Y broses drosglwyddo**



Argymhelliad:

a) Ni ddylai unrhyw achosion gael eu trosglwyddo o'r system bresennol i'r system wedi'i hailgynllunio.

b) Caiff rhieni sydd am ddefnyddio'r system weinyddol newydd eu helpu i wneud cais arall.

Hysbysu rhieni o'u dewisiadau

77. Byddai angen rhoi gwybodaeth benodol i gleientiaid er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu hopsiynau. Byddai'r rhai sy'n gallu gwneud trefniadau preifat yn cael eu hannog i wneud hynny tra'n eu gwneud yn ymwybodol y gallant ddefnyddio'r corff gweinyddol os bydd y trefniadau yn chwalu. Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu y bydd gostyngiad sylweddol mewn llwyth achosion wrth i rieni benderfynu gwneud trefniadau eraill.[56]

78. Mae tri phrif grŵp y mae'r broses drosglwyddo yn effeithio arnynt: achosion budd-daliadau; y rhai sy'n gadael y system i sefyllfa heb drefniant neu drefniadau preifat (y gellid eu hategu drwy drefniadau cyfreithiol, sef gorchmynion cydsynio); a'r rhai sy'n gwneud cais arall i'r system weinyddol newydd.

Cefnogi cleientiaid budd-daliadau

79. Mae dileu'r orfodaeth yn golygu y gall rhieni â gofal sy'n cael budd-daliadau ddewis y ffordd orau o drefnu cynhaliaeth. Mae'n rhaid cyfleu'r newid hwn yn glir ochr yn ochr â chyngor ar ffyrdd amgen o

wneud trefniadau cynnal plant. Byddai newidiadau o ran diystyru yn cael effaith wahanol ar achosion sy'n cael cynhaliaeth o dan yr hen gynllun a'r cynllun newydd. Mae cleientiaid sy'n cael Premiwm Cynhaliaeth Plant yn cael diystyru rhannol eisoes ac felly byddent yn wynebu newid llai na chleientiaid o dan yr hen gynllun.

Cleientiaid sy'n symud i drefniadau preifat

80. Dylid annog cleientiaid sydd wedi meithrin hyder drwy ddefnyddio Cynhaliaeth Uniongyrchol i symud i drefniadau cwbl breifat.[57] Gellid cefnogi'r rhai â hanes o gydymffurfiaeth dda i wneud trefniadau preifat, er enghraifft drwy ganiatáu cyfnod prawf lle y gellid ailweithredu eu hachos pe bai'r trefniant preifat yn chwalu. Efallai y bydd cleientiaid eraill am gadarnhau eu trefniadau preifat drwy orchymyn cydsynio.

Cleientiaid sy'n dewis defnyddio'r system weinyddol newydd.

81. Lle na all rhieni gytuno ar gynhaliaeth cynnal plant yn breifat, byddent yn gallu dewis y dull gweinyddol newydd, dros gyfnod o amser. Mae angen gwaith pellach i bennu ffordd deg o ddarwahanu ceisiadau. Caiff y broses gwneud cais arall ei chynllunio i fod mor syml â phosibl ond bydd yn manteisio ar y cyfle i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf. Ni fyddai taliadau cynhaliaeth presennol yn dod i ben hyd nes bod trefniadau newydd wedi'u pennu.

82. Yn y system bresennol, mae cleientiaid y caiff eu hachosion eu trosglwyddo o reolau'r hen gynllun i reolau'r cynllun newydd yn wynebu newidiadau blynyddol penodol i'w cynhaliaeth, er mwyn eu galluogi i ymaddasu i'r newid o ran taliadau yn raddol. Mae'r newidiadau graddol hyn yn seiliedig ar fandiau incwm wythnosol net y rhieni dibreswyl. Mae dadl gref dros beidio â chymhwyso'r rheolau o ran newidiadau graddol i'r broses drosglwyddo. Maent yn anodd iawn eu gweinyddu a gallant fod yn anodd eu hegluro i rieni. Caiff cleientiaid ddigon o rybudd o unrhyw newidiadau, gan roi amser iddynt ymaddasu i unrhyw newidiadau o ran taliadau. Gallai newid cynhaliaeth yn raddol hefyd rwystro dechrau'r system weinyddol newydd yn effeithiol.

Rheoli'r broses drosglwyddo

83. Dylid rheoli'r broses drosglwyddo fel swyddogaeth sefydliadol ar wahân, gan fanteisio ar sgiliau a phrofiad y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gyda Bwrdd Rhaglen wedi'i gefnogi gan Swyddfa Rhaglen sy'n cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Asiantaeth Cynnal Plant ac arbenigedd allanol lle y bo angen. O dan y bwrdd hwn, dylid sefydlu dau brosiect ar wahân ond cysylltiedig, gyda thargedau, amserlenni a chylch gorchwyl penodol. Byddai un prosiect yn canolbwyntio ar sefydlu'r corff newydd a byddai'r llall (swyddogaeth corff gweddilliol) yn ymwneud â'r broses o ddirwyn systemau presennol i ben a rheoli hen ddyledion.

Ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses drosglwyddo

84. Mae risgiau yn gysylltiedig â'r broses o symud i'r system wedi'i hailgynllunio drwy ymagwedd toriad llwyr ond gellir lleddfu'r rhain drwy gynnal ymchwil bellach, profi systemau a phrosesau yn drylwyr a rhoi gwybodaeth berthnasol i bob rhiant. Bydd rhywfaint o ansicrwydd bob amser yn gysylltiedig â'r broses drosglwyddo a nifer y rhieni a fydd yn gwneud cais arall i'r system newydd. Gellir gwella rhagdybiaethau gweithio drwy ymchwil bellach cyn y cyfnod trosglwyddo a thrwy ddechrau'r gwasanaeth gweinyddol newydd yn araf.

85. Mae angen ateb rhai cwestiynau penodol drwy broses cynllunio busnes a threialu drylwyr. Dyma gyfle i gynllunio'r gwasanaeth o'r gwaelod i fyny, yn arbennig y llwyth achosion newydd, gan sicrhau bod ei wasanaethau craidd yn canolbwyntio ar y cleient ac y gall alw ar asiantaethau arbenigol lle y bo angen. Dylid rhoi sylw arbennig i gynnal y llif taliadau yn ystod y broses drosglwyddo, sut i symud achosion cysylltiedig, a'r gallu i gyfeirio at ddata o'r system flaenorol. Mae perygl y gallai'r cleientiaid diamddiffyn y soniwyd amdanynt eisoes adael y system yn ystod y broses drosglwyddo, ond dylai'r gwasanaethau gwybodaeth newydd helpu i ymdrin â hyn. Dylai ymchwil i ddulliau cyfathrebu helpu i nodi'r ffordd orau o anelu gwybodaeth at gleientiaid diamddiffyn.

86. Ni fyddai cael toriad llwyr â'r trefniadau blaenorol yn newid y cyfrifoldeb sydd gan rieni â threfniadau cynnal plant presennol dros eu plant. Byddai disgwyl i rieni barhau i dalu cynhaliaeth, gan wneud newidiadau dim ond pan fyddai'r fframwaith wedi'i ailgynllunio yn dod yn weithredol. Byddai cyfrifoldebau yn parhau i gael eu gorfodi yn y cyfamser lle nad yw rhieni yn talu cynhaliaeth.

87. Byddai'r ymagwedd amgen tuag at y broses drosglwyddo yn hytrach na'r ymagwedd toriad llwyr yn golygu y byddai'r asiantaeth bresennol yn trosglwyddo achosion i'r system wedi'i hailgynllunio. Byddai achosion o dan yr hen gynllun a'r cynllun newydd presennol yn cael eu trosglwyddo i'r fframwaith polisi wedi'i ailgynllunio. Byddai hyn yn anodd iawn i'w weinyddu, ac nid yw profiad blaenorol yn cefnogi'r ddadl dros fabwysiadu'r ymagwedd hon. Ni cheisiwyd symud achosion o'r hen system TG i'r system TG newydd a throsglwyddo'r holl achosion o reolau'r hen gynllun i reolau'r cynllun newydd eto. O gofio'r problemau gweithredol presennol sy'n wynebu'r Asiantaeth Cynnal Plant, byddai'r dasg o symud achosion o dan ddau gynllun cyfochrog i drydydd cynllun yn anodd iawn. Byddai'r ymagwedd hon yn peri risg fawr i gleientiaid, y mae llawer ohonynt yn teimlo'n rhwystredig eisoes oherwydd y diffyg cynnydd a wnaed wrth drosglwyddo achosion ar yr hen gynllun presennol.

Rhan 2

Model newydd ar gyfer cyflwyno'r drefn cynnal plant

8 Model gweithredu newydd

88. Dylai'r model gweithredu newydd ar gyfer cyflwyno'r drefn cynnal plant fod yn seiliedig ar ddiwallu anghenion y cleientiaid. Mae amrywiaeth o swyddogaethau ynghlwm â'r drefn cynnal plant. Er bod rhai ohonynt, megis olrhain rhieni dibreswyl, yn gofyn am sgiliau arbenigol ac adnoddau, mae eraill, megis casglu arian, yn brosesau busnes safonol a gynhelir yn helaeth mewn mannau eraill. Ceir arbenigedd sylweddol yn y sector preifat ac ymhob rhan o'r llywodraeth o ran cyflwyno'r prosesau a fydd yn greiddiol i lwyddiant y system cynnal plant newydd. Er mwyn i'r broses o gyflwyno'r drefn cynnal plant elwa ar arbenigedd o'r fath, argymhellaf y dylai'r sefydliad gweinyddol gael ei sefydlu, yn sylfaenol, fel corff comisiynu. O dan fodel o'r fath, byddai'r corff gweinyddol yn parhau'n gyfrifol am strategaeth a pherfformiad, ond byddai'n comisiynu amrywiaeth o ddarparwyr o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ehangach i ddarparu gwasanaethau.

89. Byddai'n rhaid i'r model comisiynu sicrhau nad oes rhaid i gleientiaid ymdrin â sefydliadau niferus sy'n darparu gwahanol elfennau o'r broses cynnal plant. Gellir cyflawni hyn drwy bennu un corff i weithredu fel y prif ryngwyneb â chwsmeriaid, gan reoli'r gydberthynas rhwng cwsmeriaid a darparwyr gwasanaeth. O ganlyniad, dylai fod gan gwsmeriaid un pwynt cyswllt. Gallai'r corff comisiynu ei hun gyflawni swyddogaeth o'r fath neu gellid ei chyflawni gan gorff allanol, o bosibl wedi'i chyfuno â rhan arall o'r gwasanaeth.

90. Gallai strwythur y model hwn amrywio o broses syml o drefnu contractau allanol i greu fframweithiau cyd-fenter a fyddai'n hwyluso ymagwedd fwy cydweithredol ac, yn y pen draw, fwy effeithiol.

Ffigur 9. **Strwythurau comisiynu**



91. Bydd yn rhaid i'r broses cynllunio busnes archwilio p'un a all y seilwaith presennol gynnal y prosesau newydd sydd eu hangen. Er nad argymhellir y dylid newid y fformiwla a'r broses asesu yn sylweddol, gallai llwyth achosion cyfnewidiol amrywio'r gofynion o ran TG. Daw'r contract TG presennol rhwng yr Asiantaeth Cynnal Plant a'i darparwr i ben yn 2010 ac wrth baratoi ar gyfer y cyfnod hwn, ceir cyfle i ailystyried anghenion y dyfodol.

Argymhelliad: Dylid darparu'r drefn cynnal plant drwy gorff comisiynu gan fanteisio ar arbenigedd o'r sector preifat, y sector di-elw a'r sectorau cyhoeddus ehangach.

9 Llywodraethu llwyddiannus

92. Mae'r Asiantaeth Cynnal Plant bresennol yn gweithredu fel un o asiantaethau gweithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er mai'r Asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflwyno'r drefn cynnal plant, yr Adran sy'n berchen ar y polisi cyffredinol ac yn gyfrifol amdano.

93. Efallai y byddai'n werth newid y trefniadau sefydliadol. Un opsiwn fyddai sefydlu'r corff newydd fel corff cyhoeddus anadrannol. Disgrifir corff cyhoeddus anadrannol fel 'corff sy'n chwarae rhan ym mhrosesau llywodraeth genedlaethol ond nad yw'n un o adrannau'r llywodraeth, neu'n rhan o adran o'r fath, ac sy'n gweithredu yn unol â hynny i raddau mwy neu lai hyd braich o weinidogion'.[58]

94. Gallai newid statws y sefydliad newydd gynnig sawl mantais bosibl, gan gynnwys rhoi mwy o gyfrifoldeb ac annibyniaeth i'r sefydliad o'r canol. Er y byddai gweinidogion yn parhau'n gyfrifol am y sefydliad, ni fyddent yn rhan o'i weithrediadau o ddydd i ddydd. Yn aml, caiff corff cyhoeddus anadrannol eu defnyddio mewn sefyllfaoedd lle y mae angen gwneud penderfyniadau anodd am achosion penodol, y mae angen eu gwahanu'n amlwg o weinidogion. Ymhlith yr enghreifftiau mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Mae dadleuon tebyg yn berthnasol i'r drefn cynnal plant, lle y mae'r wladwriaeth yn cyflawni rhyw fath o swyddogaeth led-farnwrol, wrth benderfynu ar gais rhwng dau riant.

95. Gallai statws corff cyhoeddus anadrannol hefyd alluogi'r sefydliad gweinyddol i gymryd mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros bolisïau nag asiantaeth weithredol. Yn achos y drefn cynnal plant, gallai fod o fudd cyfuno polisi a dulliau cyflwyno o fewn yr un corff, er mwyn sicrhau'r synergedd gorau posibl rhwng y ddau. Byddai hyn yn gydnaws â'r argymhelliad i'r sefydliad weithredu fel comisiynydd gwasanaethau.

96. Mae risgiau yn gysylltiedig â'r broses o greu sefydliad newydd a newid ei drefniadau llywodraethedd. Yn amlwg, byddai gan unrhyw newid oblygiadau sylweddol i reolaeth a staff presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant, sydd wedi gweithio'n galed i gyflawni nodau'r Asiantaeth, yn aml o dan amgylchiadau anodd iawn. Gallai newidiadau hefyd effeithio ar gydberthynas y sefydliad gweinyddol â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan greu perygl o ddyblygu swyddogaethau polisi, ac â'i gwsmeriaid, os tybir ei fod yn annibynnol ar y llywodraeth.

97. Mewn egwyddor, ymddengys y gallai fod yn fuddiol newid y trefniadau llywodraethedd. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i archwilio oblygiadau newid o'r fath yn fanylach ac i ategu penderfyniad terfynol.

Argymhelliad: Mae angen gwaith pellach i asesu manteision ac anfanteision cymharol sefydlu'r sefydliad newydd fel corff cyhoeddus anadrannol neu ei gadw fel asiantaeth weithredol.

10 Rheoli'r etifeddiaeth

Ymdrin â dyled

98. Er bod sefydlu system newydd ar gyfer y drefn cynnal plant yn rhoi cyfle i ymwahanu â'r gorffennol, mae angen ymdrin â materion a etifeddwyd sy'n deillio o fethiannau'r gorffennol o hyd. Ni fydd rhieni dibreswyl yn gallu osgoi eu cyfrifoldebau presennol, gan y bydd corff gweddilliol yn parhau i orfodi dyledion y gorffennol. Bydd pwerau gorfodi cryfach, mwy effeithiol yn cyfuno ag ymdrechion i wella'r diwylliant cydymffurfio.

99. Mae angen i'r system wedi'i hailgynllunio ymwahanu'n llwyr rhag achosion a fu yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae gan y system bresennol ddyledion sylweddol. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Asiantaeth Cynnal Plant unrhyw bwerau i ddiddymu dyledion, hyd yn oed mewn achosion lle na ellir gorfodi'r ddyled yn gyfreithiol drwy Orchymyn Rhwymedigaeth.[59] Nid yw'r Llywodraeth yn gwarantu cynhaliaeth cynnal plant, ond mae'n gweithredu fel canolwr rhwng rhieni. Ni ddylid caniatáu i'r gwaith o ymdrin â hen ddyledion na ellir eu casglu lesteirio'r broses o weithredu'r system newydd.

100. Ym mis Ebrill 2005, roedd dros £3 biliwn o ddyledion cynhaliaeth wedi cronni ers 1993. Mae'r Asiantaeth eisoes yn cymryd camau i wella dulliau casglu dyledion drwy ei Chynllun Gwella Gweithredol drwy:

- cyflogi asiantaethau casglu dyledion allanol i adennill dyledion sydd heb eu talu, gan ddefnyddio arfer gorau o'r sector preifat;
- defnyddio dulliau ailddefnyddio ac ailstrwythuro i gynyddu nifer y staff gorfodi bedair gwaith yn ystod cyfnod y Cynllun Gwella Gweithredol;
- sicrhau bod timau rheoli dyled yn cymryd camau ar unwaith pan gaiff taliad ei golli;
- gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth a ddelir gan Gyllid a Thollau EM ac asiantaethau cyfeirio credyd.

101. Ni fydd cyflawni'r gwelliannau hyn yn cael gwared ar y broblem a achosir gan hen ddyledion. Bydd angen cymryd camau pellach ond dylai rheoli dyled o'r fath fod yn broses annibynnol, ar wahân i gyflwyno'r system cynnal plant newydd. Dylid rhoi pwerau i'r corff gweddilliol negodi neu ffactoru dyledion er mwyn sicrhau'r adenillion gorau posibl. Dylid defnyddio pwerau i ddiddymu dyled mewn achosion lle nad yw'n bosibl adennill unrhyw arian.

102. I ategu'r argymhellion hyn, dylid gwneud gwaith pellach i ddadansoddi'r stoc dyledion yn well. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar sicrhau dealltwriaeth well o'r ffordd orau i ddatrys achosion a sicrhau defnydd priodol o'r pwerau newydd arfaethedig.

Argymhelliad: Cael pwerau deddfu i reoli dyledion presennol a gwneud gwaith pellach o ran natur dyledion hanesyddol.

11 Gwella polisi cynnal plant

103. Mae sawl maes o bolisi cynnal plant y gellid eu symleiddio a'u gwella. Ni allai'r broses ailgynllunio ystyried holl elfennau'r fframwaith presennol ond yn hytrach, canolbwyntiodd ar y rhannau allweddol y mae angen eu newid er mwyn cyflwyno system gynnal plant wedi'i hailgynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys camau i symleiddio prosesau presennol ac i leihau'r llwyth achosion gweinyddol, a drafodir yn yr adrannau canlynol. Ceir cyfle i fireinio polisïau ymhellach, ac argymhellaf y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ystyried hyn wrth ddatblygu'r gwaith hwn.

Gwella gwybodaeth er mwyn gallu olrhain rhieni

104. Mae gwella'r gallu i olrhain rhieni dibreswyl yn bwysig gan ei fod yn creu deinamig lle y mae pobl yn llai tebygol o geisio osgoi eu cyfrifoldebau. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn ymdrin â llawer o achosion lle nad oes digon o wybodaeth i ddod o hyd i'r rhiant dibreswyl. Mae'r achosion hyn yn llafurus ac yn gostus, a chaiff llawer ohonynt eu cau cyn iddynt gael eu hasesu.

105. Ar hyn o bryd, nid oes gan rieni â gofal sy'n cael budd-daliadau gymhellion cryf i gydweithredu â'r Asiantaeth. Gallai hyn fod yn gyfrifol am rywfaint o'r wybodaeth o ansawdd gwael a ddarperir. Dylai'r broses o ddod â gorfodaeth budd-daliadau i ben a diystyru cynhaliaeth i'r rhan fwyaf o rieni greu gwell cymhellion i rieni â gofal ddarparu gwybodaeth.

Opsiynau i'w hystyried ymhellach

106. Mae amrywiaeth o opsiynau y gellid eu cyflwyno i wella'r wybodaeth sydd ei hangen i olrhain rhieni dibreswyl. Rwyf wedi ystyried sawl opsiwn, ond dylid gwneud gwaith pellach i ddatblygu unrhyw bolisi a gwelliannau gweithredol ychwanegol.

107. *Cynyddu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i rieni â gofal gyflwyno achos:* Gallai'r corff gweinyddol ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant â gofal ddarparu swm gofynnol o wybodaeth cyn derbyn achos. Felly byddai'r cyfrifoldeb ar y rhiant â gofal i ddarparu digon o wybodaeth i allu dod o hyd i'r rhiant dibreswyl. Gosodwyd cynsail yn Awstralia, lle, os nad enwir y tad ar y dystysgrif geni neu os na ellir profi ei fod wedi byw gyda'r fam cyn yr enedigaeth, y mae'n rhaid i'r fam brofi tadolaeth cyn i'r Asiantaeth Cynnal Plant dderbyn cais. Yr opsiwn polisi hwn sy'n cyfateb orau i'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gyd-gofrestru'r enedigaeth, nad yw'n bodoli ar hyn o bryd yn y DU. Dylid gwneud gwaith pellach i archwilio dichonoldeb yr opsiwn hwn.

108. *Darparu gwasanaeth adnabod i'r rhiant â gofal:* Er mwyn gwella gwasanaethau olrhain ymhellach, gallai'r corff gweinyddol 'rhag-brosesu' achosion cyn eu derbyn i'r system. Ni fyddai hyn yn atal y gwasanaeth, ond byddai'n helpu i gyfeirio adnoddau ar gam cynnar. Gallai hyn weithredu ar yr un egwyddorion â'r gwasanaeth 'Gwirio ac Anfon' pasportau.

109. *Annog rhieni i gyd-gofrestru genedigaethau:* Y wybodaeth fwyaf sylfaenol sydd ei hangen i ddechrau olrhain yw'r wybodaeth am y tad ar y dystysgrif geni. Fodd bynnag, dim ond manylion y fam sydd wedi'u cofnodi ar dystysgrifau geni hyd at 20 y cant o'r rheini sy'n gymwys i gael cynhaliaeth plant ar hyn o bryd. Mae amrywiaeth o gamau y gellid eu cymryd i gynyddu nifer y genedigaethau a gyd-gofrestrir gan y ddau riant. Gallai'r rhain gynnwys rhoi mwy o wybodaeth i rieni adeg geni eu plentyn, er enghraifft, o ran y goblygiadau y gall cofrestru enw un rhiant eu cael ar unrhyw gais am gynhaliaeth plant yn y dyfodol. Byddai'r opsiwn mwyaf radical yn golygu newid y rhagdybiaeth gyfreithiol sydd ar hyn o bryd yn gosod y cyfrifoldeb dros gofrestru'r enedigaeth ar y fam os nad yw'r rhieni wedi priodi. Gellid diwygio hyn i roi cydgyfrifoldeb ar rieni dibriod (gyda rhai eithriadau penodol ar gyfer cydberthnasau treisgar neu orfodol). Byddai angen pwerau ar gofrestrydd i herio a chefnogi rhieni a fyddai'n ceisio cofrestru ar eu pen eu hunain. Pe bai'r polisi'n llwyddo, byddai mwy o dadau yn cael eu cofrestru ar dystysgrifau geni, gan arwain at lai o achosion lle na ellir eu holrhain. Cyflwynodd Awstralia ddeddfwriaeth cydgyfrifoldeb yn ystod y 1990au[60] ac, er bod risgiau ynghlwm wrth hynny, awgryma tystiolaeth y gallai gael effaith gadarnhaol yn y DU.[61] Gallai hefyd fod yn fuddiol annog tadau i gymryd mwy o ran ym mywydau eu plant a allai gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn talu cynhaliaeth.[62]

110. Mae buddiannau sylweddol a phellgyrhaeddol posibl ynghlwm ag annog proses o gyd-gofrestru genedigaethau. Er bod y mater hwn y tu allan i gyfrifoldeb yr Asiantaeth Cynnal Plant a'r Adran Gwaith a Phensiynau, dylai'r Llywodraeth ystyried y ffordd orau o ddatblygu polisi o'r fath ymhellach. Dylai adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am bolisïau wneud gwaith pellach ar y maes hwn, gan gynnwys archwilio goblygiadau ehangach unrhyw newid.

Cyfrifo cynhaliaeth plant

111. Gan gydnabod y cymhlethdodau a oedd ynghlwm â chyfrifo cynhaliaeth o dan yr hen gynllun, gwnaed newidiadau yn 2000 i symleiddio'r fformiwla ac i leihau'r swm o wybodaeth yr oedd ei hangen.[63] Bwriedir i'r broses o gyfrifo cynhaliaeth plant o dan y cynllun newydd fod yn syml. Cyfrifir cynhaliaeth gan ddefnyddio fformiwla sy'n dibynnu ar incwm net presennol y rhiant dibreswyl a'r

nifer o blant. Gwneir addasiadau i'r cyfrifiad safonol i ystyried amgylchiadau unigol, gan gynnwys lle y mae'r ddau riant yn gofalu rywfaint am eu plentyn/plant dros nos, darpariaethau ar gyfer rhieni dibreswyl sydd ag ail deuluoedd, ac amrywiadau sy'n gysylltiedig â'r plentyn (er enghraifft, lle y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â phlentyn anabl).

112. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r egwyddorion bras sy'n sail i'r broses gyfrifo. Am y rheswm hwn, nid argymhellaf y dylid gwneud newidiadau mawr. Fodd bynnag, gellid ei symleiddio ymhellach, i helpu i greu proses dryloyw y gellir ei defnyddio fel sail ar gyfer trefniadau a wneir naill ai'n breifat neu drwy'r llwybrau cyfreithiol neu weinyddol. Er fy mod yn awgrymu amrywiaeth o ffyrdd o symleiddio'r polisi, rwyf yn cydnabod y gellir gwneud llawer o newidiadau i agweddau manwl ar y polisi. Dylid gwneud gwaith pellach i nodi meysydd o'r polisi y gellid eu mireinio.

Y sail dros gyfrifo incwm

113. Ar hyn o bryd, mae cyfrifiadau cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm net presennol rhiant dibreswyl.[64] Defnyddir incwm net gan mai dyma yw'r elfen agosaf at yr incwm sydd gan rieni dibreswyl i'w wario. Gall y cyfrifiad fod yn llafurus gan fod angen sawl darn o wybodaeth a all newid yn rheolaidd. Yn aml, bydd ôl-ddyledion yn cronni wrth i'r asesiad gael ei wneud.

114. Byddai defnyddio incwm gros i gyfrifo cynhaliaeth yn arwain at fwy o dryloywder, gwell symlrwydd a chysondeb o ran ymagwedd wrth gyfrifo hawl i daliadau eraill, er enghraifft, credydau mewn gwaith. Mae incwm gros yn anos i'w drin nag incwm net. Byddai newid y sail ar gyfer cyfrifo incwm yn golygu y byddai angen newid y canrannau a ddefnyddir i gyfrifo cynhaliaeth.

115. Gall defnyddio incwm presennol achosi problemau gan fod yn rhaid i'r Asiantaeth Cynnal Plant fod yn ymwybodol o nifer fawr o newidiadau mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag amrywiadau cymharol fach mewn incwm. Awgrymwyd y gellid newid y sail ar gyfer cyfrifo i incwm hanesyddol (mewn perthynas â'r flwyddyn dreth flaenorol) fel ffordd o ymdrin â'r mater hwn. Mae incwm hanesyddol (boed yn net neu'n gros) yn haws i'w brofi ac, er y gallai fod gwahaniaeth perthnasol rhwng incwm presennol ac incwm hanesyddol, byddai'r system yn adlewyrchu hyn ar ôl cyfnod darfodedig o amser.

116. Rwyf wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer symleiddio'r sail ar gyfer cyfrifo cynhaliaeth plant. Un o'r problemau allweddol wrth gyfrifo incwm net presennol yw'r baich gweinyddol a grëir gan y newidiadau aml mewn amgylchiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod data incwm yn gyfredol. Er mwyn ymdrin â hyn,

argymhellaf y dylai cyfrifiadau cynhaliaeth fod yn gysylltiedig ag enillion cyfartalog. Câi hyn ei ategu drwy alluogi rhieni dibreswyl a fydd yn colli swydd neu'n cael swydd i wneud ailgyfrifiad ar unwaith. Byddai hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn sicrhau taliadau sefydlog i'r ddau riant. Byddai hefyd yn cael gwared ar y cymhelliant i rieni wneud cais am ailgyfrifiadau incwm rheolaidd sy'n arwain at newidiadau bach iawn mewn taliadau cynhaliaeth. Dylid gwneud gwaith pellach i archwilio'r rhinweddau a'r risgiau sydd ynghlwm â newid y sail ar gyfer cyfrifo incwm.

Diddymu'r darpariaethau ar gyfer trefniadau gofal a rennir yn gyfartal

117. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn ymyrryd mewn achosion lle y ceir trefniadau gofal a rennir yn gyfartal, neu fwy neu lai'n gyfartal.[65] Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y system yn gynhwysfawr ac er mwyn ymdrin ag unrhyw achosion lle y gallai fod gwahaniaeth incwm mawr rhwng y rhieni, sy'n cyfiawnhau trosglwyddo arian rhyngddynt. O dan y system newydd a gynigir lle y gall rhieni wneud eu trefniadau eu hunain, mae achosion lle y ceir cyfran uchel o ofal a rennir yn llawer llai tebygol o gael eu datrys drwy ddefnyddio'r llwybr gweinyddol. O gofio bod achosion lle y caiff gofal ei rannu'n gyfartal, neu fwy neu lai'n gyfartal, yn golygu bod y ddau riant yn derbyn cyfrifoldeb ariannol dros eu plant, credaf y dylai'r achosion hyn gael eu heithrio rhag cyfranogiad trydydd parti, heb unrhyw ddarpariaethau o fewn y fformiwla cynnal plant ar gyfer trosglwyddo arian rhwng rhieni.

Casglu cynhaliaeth plant

118. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn darparu gwasanaeth casglu: mae rhieni dibreswyl yn talu'r Asiantaeth, sydd wedyn yn trosglwyddo'r gynhaliaeth sy'n ddyledus i'r rhiant â gofal. Mae'r Asiantaeth yn cynnig amrywiaeth o ddulliau i rieni dibreswyl dalu eu cynhaliaeth. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau awtomatig, megis Gorchmynion Didynnu o Enillion, debydau uniongyrchol ac archebion sefydlog, a thaliadau personol, gan gynnwys arian parod a sieciau.

119. Mae dulliau talu awtomatig yn arwain at gyfraddau cydymffurfio uwch. Mae gan rieni dibreswyl sy'n talu cynhaliaeth drwy ddebyd uniongyrchol gyfradd cydymffurfio o 92 y cant ar gyfartaledd o gymharu â dim ond 51 y cant ar gyfer y rheini sy'n talu drwy ddulliau talu personol.[66] Mae dulliau talu awtomatig yn fuddiol i'r rhieni gan eu bod yn creu patrwm o gynhaliaeth sefydlog a hefyd yn galluogi i daliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol rhwng rhieni. Maent hefyd yn llai costus i'w gweinyddu. I'r gwrthwyneb, mae taliadau personol yn gostus i'w gweinyddu ac yn tueddu i arwain at gyfraddau cydymffurfio is.

120. Er bod staff yr Asiantaeth Cynnal Plant yn ceisio annog rhieni dibreswyl i ddefnyddio dulliau talu awtomatig, gallant barhau i ddefnyddio dulliau personol heb dalu unrhyw gost ychwanegol, a phrin yw'r cymhellion i annog taliadau awtomatig. Mae hyn yn groes i'r cymhellion a roddir i gwsmeriaid mewn sectorau eraill i wneud taliadau rheolaidd gan ddefnyddio dulliau awtomatig; er enghraifft, gall cwsmeriaid trydan a nwy deuol gael disgownt o hyd at 15 y cant am ddefnyddio dull talu awtomatig.[67]

121. O ystyried manteision taliadau awtomatig i rieni a'r sefydliad sy'n gyfrifol am gyflwyno'r drefn cynnal plant, mae rhesymau da dros ei annog. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn bwriadu defnyddio dulliau talu awtomatig, gan gynnwys Gorchmynion Didynnu o Enillion, ar gam cynharach os bydd rhiant dibreswyl yn dangos arwyddion o beidio â chydymffurfio.[68] Mae Gorchmynion Didynnu o Enillion yn galluogi i gynhaliaeth gael ei chasglu'n uniongyrchol o incwm y rhiant dibreswyl ac mae ganddynt gyfradd cydymffurfio dda o 78 y cant.[69] Fodd bynnag, nid ydynt yn addas i bob rhiant dibreswyl. I'r rheini sy'n hunangyflogedig neu sydd â mwy nag un swydd, dylid annog dulliau talu awtomatig eraill.

122. Gellid creu dadgymhellion i rieni dibreswyl dalu cynhaliaeth plant gan ddefnyddio dulliau personol. Gellid gwneud hyn drwy godi tâl gweinyddol am ddefnyddio dulliau talu personol, a dylid gwneud gwaith pellach i ymchwilio i ddichonoldeb opsiynau o'r fath.

Defnyddio Cyllid a Thollau EM i gasglu cynhaliaeth plant

123. Mae rhai rhanddeiliaid wedi cynnig y dylid defnyddio Cyllid a Thollau EM i gasglu cynhaliaeth cynnal plant gan rieni dibreswyl sydd mewn cyflogaeth. Byddai hyn, mewn egwyddor, yn golygu defnyddio prosesau presennol Cyllid a Thollau EM a defnyddio ei wybodaeth am leoliad ac incwm rhieni dibreswyl. Fodd bynnag, o archwilio'r opsiwn hwn, ymddengys na fyddai'n ymarferol.

124. Nid oes gan Cyllid a Thollau EM wybodaeth am incwm presennol rhieni dibreswyl. Ar unrhyw adeg benodol, gŵyr am statws cyflogaeth ac incwm unigolyn o'r flwyddyn dreth flaenorol. Yn system dreth y DU, dim ond ar ddiwedd y flwyddyn dreth y darperir gwybodaeth lawn am incwm gan gyflogwyr. Nid yw Cyllid a Thollau EM yn gweithredu dulliau cysoni a chyfrifo yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth flaenorol, defnyddir gwybodaeth am incwm i gysoni sefyllfa dreth unigolion ac i ddatrys anghydfodau rhwng lefel rhwymedigaeth a'r dreth a dalwyd.

125. Felly, byddai casglu cynhaliaeth drwy'r system dreth yn achosi problemau. Gan nad yw'r wybodaeth lawn am incwm a didyniadau a wneir drwy'r system dreth yn hysbys tan ar ôl diwedd y flwyddyn

dreth berthnasol, ni allai'r system ategu trosglwyddo arian yn ystod blwyddyn rhwng rhieni. Mewn gwirionedd, byddai'n rhaid i'r rhiant â gofal aros tan ar ôl diwedd y flwyddyn dreth cyn cael cyfandaliad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Fel arall, byddai'n rhaid i Gyllid a Thollau EM gymryd y risg ariannol o dalu cynhaliaeth ac wedyn naill ai adennill gordaliadau gan rieni â gofal neu adennill tan-daliadau gan rieni dibreswyl.

126. Gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eisoes ddidynnu cynhaliaeth cynnal plant yn uniongyrchol o incwm drwy ddefnyddio Gorchmynion Didynnu o Enillion. Dylai proses fwy effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad sicrhau y caiff mwy o arian ei gasglu drwy Orchmynion Didynnu o Enillion. Serch hynny, mae defnyddio data presennol Cyllid a Thollau EM yn gam cadarnhaol, ac argymhellaf y dylid rhannu gwybodaeth yn fwy ar draws adrannau'r llywodraeth er mwyn olrhain rhieni dibreswyl.

Casglu ôl-ddyledion

127. Mae'r problemau presennol o ran casglu a gorfodi wedi arwain at lawer o achosion lle na thalwyd cynhaliaeth. Rhwng 1993, pan sefydlwyd yr Asiantaeth Cynnal Plant, a 2005, ni wnaed £3 biliwn o daliadau cynhaliaeth gan rieni dibreswyl.[70]

128. Mae cyfuniad o faterion diwylliannol a gweinyddol wedi'i gwneud yn anodd casglu ôl-ddyledion gan rieni dibreswyl. Bu'r Asiantaeth yn amharod i gasglu ôl-ddyledion o asedau rhieni dibreswyl, gan ei bod yn well ganddi ganolbwyntio ar gasglu allan o incwm. Mae hyn yn aml yn arwain at gytuno ar drefniadau ad-dalu araf gyda rhieni dibreswyl. Mae cymhellion gwael ar gyfer talu'n brydlon, ac yn aml dim ond fel y cam olaf y defnyddiwyd camau gorfodi. Yn amlwg, mae casglu ôl-ddyledion gan rieni dibreswyl na ellir eu holrhain yn anodd iawn gan na ellir cymryd unrhyw gamau os nad yw'r Asiantaeth yn gwybod eu cyfeiriad na'u cyflogwr. Mae'r ffactorau cyfun hynny wedi caniatáu i ôl-ddyledion gronni i lefel annerbyniol.

Cronfa ddata o gyflogeion newydd

129. Mae'r Unol Daleithiau wedi cyflwyno gofyniad i fusnesau gyflwyno manylion am bob person sy'n cael eu cyflogi ganddynt. Cyflwynwyd y mesur yn benodol i wella llwyddiant prosesau casglu taliadau cynhaliaeth cynnal plant a nodir ei fod wedi gwella cyfraddau casglu yn sylweddol. Er ei fod yn galluogi i awdurdodau cynnal plant gael gwybod enw cyflogwr unrhyw riant dibreswyl ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, mae'n dibynnu'n sylweddol ar gydweithrediad cyflogwyr a ph'un a fyddant yn darparu gwybodaeth amserol. O ystyried y costau a orfodir ar fusnesau, nid yw datblygiad o'r fath yn

debygol o fod yn ffordd gost-effeithiol o ddod o hyd i rieni dibreswyl, ond gellid ei ystyried ymhellach yn y dyfodol pe byddai'n helpu i gyflawni amcanion ehangach y llywodraeth.

130. Gan edrych i'r dyfodol, dylai'r ôl-ddyledion sydd wedi cronni leihau o ystyried y newidiadau a argymhellir i ddulliau casglu a gorfodi. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ymchwilio i gamau pellach y gellid eu cymryd i wella dulliau casglu ôl-ddyledion.

Argymhelliad: Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau wneud gwaith pellach i nodi a datblygu cyfleoedd i fireinio polisïau o ran olrhain, asesu a chasglu.

Codi tâl

131. O dan y system wedi'i hailgynllunio, gellid codi tâl ar rieni i ddefnyddio'r llwybr gweinyddol i wneud trefniadau cynnal plant. Byddai hyn yn cyfrannu at amcanion y system newydd drwy roi cymhelliant i ddefnyddio trefniadau preifat, a all fod yn fwy llwyddiannus, gan helpu lles plant drwy well cydymffurfiaeth a lleihau'r effaith ar y trethdalwr drwy wrthbwyso costau gweithredu. Gallai fod angen codi tâl hefyd er mwyn cadw'r ffiniau â'r llwybr cyfreithiol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rieni dalu am wneud gorchmynion cydsynio. Gallai methu â chodi tâl am y gwasanaeth gweinyddol greu cymhellion i rieni, y mae eu hamgylchiadau yn fwy addas ar gyfer defnyddio'r llwybr cyfreithiol, ddewis y llwybr gweinyddol er mwyn osgoi talu taliadau.

132. Mae gwledydd eraill yn codi tâl ar rieni i ddefnyddio gwasanaethau cynnal plant gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol fodelau. Yn yr Unol Daleithiau, gellir codi ffi flynyddol o $25 ar rieni â gofal nad ydynt yn cael budd-daliadau.[71] Mae rhai taleithiau hefyd wedi codi tâl sy'n gyfwerth â chanran o'r gynhaliaeth, yn nodweddiadol rhwng 3 a 6 y cant.[72] Bu codi tâl hefyd yn nodwedd o system y DU yn y gorffennol, lle y codwyd ffi asesu gychwynnol o £44 hyd at 1995 pan roddwyd y gorau i godi tâl.

133. Argymhellaf y dylid cyflwyno system o godi tâl ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gweinyddol. Gallai system o'r fath fod ar amrywiaeth o ffurfiau. Un opsiwn fyddai cyflwyno ffi gychwynnol a delir ymlaen llaw. Dengys dadansoddiad o'r llwyth achosion presennol fod grŵp sylweddol o achosion preifat yn cael eu cau cyn y gwneir asesiad.[73] Yr esboniad mwyaf tebygol yw bod y rhan fwyaf o'r achosion hyn yn cael eu cyflwyno gan rieni â gofal er mwyn rhoi pwysau ar rieni dibreswyl, a fydd wedyn naill ai'n cytuno i wneud trefniant preifat neu i ailddechrau cydymffurfio â threfniant sy'n bodoli eisoes. Er bod y

dull hwn yn addas ar gyfer y system bresennol, fel rhan o'r system newydd, rydym am i rieni wneud llawer mwy o ddefnydd o'r gwelliant arfaethedig mewn gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn hytrach nag annog ymyraethau diangen a drud.

134. Y ffordd symlaf o osgoi ceisiadau o'r fath fyddai codi ffi gychwynnol a delir ymlaen llaw ar rieni â gofal. Mae angen gwaith pellach i bennu lefel tâl o'r fath. Opsiwn arall fyddai codi tâl am wasanaethau olrhain estynedig. Byddai hyn yn annog rhieni â gofal i gydweithredu â'r system a byddai o bosibl yn atal achosion lle nad oes llawer o obaith o olrhain y rhiant dibreswyl fyth.

135. Gellir codi tâl hefyd er mwyn cymell rhieni i wneud eu trefniadau eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl. Er mwyn creu trefniadau preifat llwyddiannus, mae angen i'r ddau riant gydweithredu, sy'n awgrymu rhesymeg dros godi tâl ar y rhiant â gofal a'r rhiant dibreswyl am ddefnyddio'r gwasanaeth. Un opsiwn yw codi tâl ar rieni am ddefnyddio rhai gwasanaethau penodol, er enghraifft codi canran o'r gynhaliaeth am ddefnyddio'r gwasanaeth casglu. Mae hyn yn gydnaws â'r taliadau a gymhwysir yn y system gyfreithiol am wasanaethau penodol.

136. Sut bynnag y cyflwynir taliadau, rhaid ystyried anghenion rhieni â gofal diamddiffyn. Nid wyf am ddadgymell y rhieni hynny nad oes ganddynt unrhyw opsiwn ar gyfer cytuno ar gynhaliaeth rhag defnyddio'r gwasanaeth. Mae angen gwaith ymchwil pellach i archwilio'r camau diogelu y gallai fod eu hangen er mwyn sicrhau y gellir codi taliadau heb beri risg i grwpiau diamddiffyn.

Argymhelliad:

a) Dylid rhoi'r pŵer i'r corff gweinyddol newydd godi tâl ar gleientiaid.

b) Dylid gwneud gwaith pellach i ddatblygu polisi manwl yn y maes hwn.

12 Camau nesaf

137. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfeiriad cyffredinol y daith a'r bensaernïaeth ar gyfer system newydd. Fodd bynnag, fel yr adlewyrchwyd yn yr argymhellion, mae llawer mwy i'w wneud i ddatblygu rhaglen o newid gwbl gadarn a phrofedig. Mae'n hanfodol i'r Llywodraeth ddysgu o'r problemau a wynebwyd wrth gynnal diwygiadau blaenorol i'r system cynnal plant.

138. Mae symud o'r sefyllfa bresennol i system gyflwyno newydd yn her fawr ac mae angen ei rheoli'n ofalus. Argymhellaf y dylid pennu Bwrdd Rhaglen penodol i dywys y broses hon. Dylai gynnwys amrywiaeth o arbenigedd o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y llywodraeth, yn ogystal â sgiliau allanol arbenigol mewn meysydd allweddol, er mwyn sicrhau y dilynir yr arfer gorau ym maes cynllunio gwasanaethau cyhoeddus. Gyda chymorth Swyddfa Rhaglen, dylai fod ganddo gyfrifoldebau clir dros gyflwyno'r bensaernïaeth sefydliadol a'r rhyngwyneb priodol â chwsmeriaid a systemau cyflwyno wedi'u profi'n drwyadl.

139. Rwyf wedi codi cyfres o welliannau polisi posibl a chamau symleiddio y mae angen gwaith pellach arnynt i'w troi'n gamau gweithredu penodol. Er mai'r Adran Gwaith a Phensiynau fydd yn gyfrifol amdanynt, bydd angen cydweithio agos rhwng nifer o adrannau'r llywodraeth ar sawl un ohonynt. Dylai'r Llywodraeth amlinellu sut y mae'n bwriadu eu datblygu yn ei hymateb ffurfiol i'r adroddiad hwn.

140. Mae polisi cynnal plant wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith ac mae'r diwygiadau hynny wedi methu â chyflawni er budd plant a theuluoedd. Ni allwn barhau ar y trywydd hwn. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i newid y mae'n rhaid gafael ynddo a'i wireddu er mwyn creu system cynnal plant sy'n addas at yr 21ain ganrif.

Rhan 3

Atodiadau

Atodiad I – Cylch gorchwyl

Gofynnwyd i Syr David Henshaw ystyried y polisi a'r trefniadau cyflwyno tymor hwy ar gyfer cynnal plant, gan gynnwys:

- pa un yw'r ffordd orau o sicrhau bod rhieni yn cymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant pan fyddant yn byw ar wahân;
- y trefniadau gorau ar gyfer cyflawni'r canlyniad hwn yn gost-effeithiol;
- yr opsiynau ar gyfer trosglwyddo i strwythurau a pholisïau newydd, gan gydnabod yr angen i ddiogelu lefel y gwasanaeth a gynigir i'r 1.5 miliwn o rieni â gofal ar hyn o bryd.

Atodiad II – Systemau amgen a ystyriwyd

1. Ystyriwyd amrywiaeth o systemau amgen cyn penderfynu ar y system wedi'i hailgynllunio, o beidio â chael unrhyw gyfranogiad gan y wladwriaeth ym maes cynnal plant, i system o gynhaliaeth warantedig lle y byddai'r cyfrifoldeb dros gynnal plant yn symud o rieni i'r wladwriaeth. Caiff anfanteision cymharol y systemau hyn eu harchwilio isod.

Peidio â chael unrhyw gyfranogiad gan y wladwriaeth ym maes cynnal plant

2. Un opsiwn a ystyriwyd oedd y dylai'r wladwriaeth roi'r gorau i'w rôl yn y maes hwn. Heb unrhyw gyfranogiad gan y wladwriaeth ym maes cynnal plant, ni fyddai gan rieni unrhyw system gymorth drwy lwybr gweinyddol. Byddai cynhaliaeth cynnal plant yn cael ei threfnu ar sail ad hoc, yn breifat neu drwy'r llysoedd. Gan dderbyn y rhesymau pam y dylai'r llywodraeth fod yn rhan o'r system cynnal plant (a nodir yn yr adran 'Rhoi'r plentyn yn gyntaf'), nid yw hwn yn opsiwn realistig. Byddai'r effeithiau negyddol posibl ar les plant a normau cymdeithasol yn drech nag unrhyw fuddiannau a gaed yn y byr dymor.

Gwarantu cynhaliaeth i bob rhiant unigol

3. Opsiwn arall a ystyriwyd oedd cynhaliaeth warantedig, sy'n gyffredin yng ngwledydd Sgandinafia. O dan system o'r fath, mae'r wladwriaeth yn talu cynhaliaeth i bob rhiant â gofal ac yn wynebu'r risg o'i chasglu gan y rheini dibreswyl. Byddai'r system yn system gyffredinol a fyddai ar gael i bob rhiant unigol a phob rhiant sydd wedi gwahanu. Mae pob rhiant â gofal yn cael cynhaliaeth, waeth pa un a yw'r rhiant dibreswyl yn talu ai peidio. Er mwyn sicrhau y byddai'r swm mwyaf posibl o arian yn cael ei adennill gan rieni dibreswyl ac fel arwydd o annerbynioldeb methu â chydymffurfio, byddai angen sefydlu system orfodi effeithiol i gyd-fynd â system o gynhaliaeth warantedig.

4. Derbyniais sylwadau cryf gan rai rhanddeiliaid y dylid cyflwyno cynhaliaeth warantedig yn y DU. Un o'r prif ddadleuon o blaid ymagwedd o'r fath yw'r effaith gadarnhaol y gall ei chael ar dlodi plant. Yn wahanol i gynhaliaeth a delir gan rieni dibreswyl, na chaiff o bosibl ei thalu'n rheolaidd, neu'n llawn, gallai cynhaliaeth warantedig ddarparu ffynhonnell incwm ragweladwy a sefydlog. Gan ddibynnu ar y gyfradd, gallai helpu i godi llawer o blant allan o dlodi.

5. Fodd bynnag, byddai system o'r fath yn ddrud iawn a byddai risgiau ynghlwm wrthi. Mae cost cynhaliaeth warantedig yn dibynnu ar y lefel a bennir ar ei chyfer a'r gyfradd y gellir ei hadennill gan rieni dibreswyl. Mae cynhaliaeth warantedig yn diddymu'r cyswllt ariannol rhwng rhieni dibreswyl a'u plant gan mai'r wladwriaeth sy'n gyfrifol am gasglu a thalu cynhaliaeth plant. Gallai hyn, ynghyd â'r ffaith y bydd rhieni dibreswyl yn gwybod y caiff eu plant gynhaliaeth, pa un a fyddant yn ei thalu ai peidio, gael effaith negyddol ar gyfraddau cydymffurfio.

6. Mae cynhaliaeth warantedig yn golygu bod y wladwriaeth yn talu cymorth ariannol yn seiliedig ar strwythur cartref yn hytrach na'i incwm. Mae hyn yn golygu y gallai cartrefi â lefelau incwm tebyg gael eu trin yn wahanol. Byddai cymorth ychwanegol yn cael ei roi i rieni unigol a llys-deuluoedd o'u cymharu â theuluoedd â chwpwl a gweddwon. Byddai hyn nid yn unig yn annheg ond gallai hefyd greu cymhellion i rieni wahanu, neu o leiaf ymddangos fel petaent wedi gwahanu, gan y byddai cynhaliaeth warantedig yn cynyddu incwm eu cartref.

7. Defnyddir cynhaliaeth warantedig mewn sawl gwlad arall, gan gynnwys Sweden, Denmarc, Norwy a'r Almaen. Mewn achosion o'r fath, mae cynhaliaeth warantedig yn gweithredu o fewn amgylchedd lles gwahanol lle y mae cyfranogiad y farchnad lafur ymhlith rhieni unigol yn tueddu i fod yn uwch. O ganlyniad, mae'n anodd cymharu gwledydd.

System gyffredinol i'r wladwriaeth

8. Ymagwedd amgen, yn debyg i'r ymagwedd yn Awstralia, fyddai sefydlu system gyffredinol i'r wladwriaeth. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bawb feddu ar ryw fath o drefniant cofrestru ar gyfer cynhaliaeth cynnal plant. Gellid gwneud trefniant o'r fath naill ai'n breifat neu ei weinyddu drwy'r wladwriaeth.

9. Yn aml, cyfeirir at y system yn Awstralia fel model i'r DU ei ddilyn. Gyda system weinyddol effeithlon a nifer fawr o drefniadau preifat, ystyrir ei bod wedi llwyddo lle y methodd y DU. Gan ddefnyddio ceisiadau i'w system Budd-daliadau Treth i Deuluoedd i gofrestru trefniadau, credir bod Awstralia wedi llwyddo i gofrestru tua 90 y cant o'i sail cleientiaid cynnal plant posibl. Wedi'i gyfuno â'r gofyniad i rieni gyd-gofrestru genedigaeth plentyn, mae hyn yn lleihau nifer y rhieni sydd y tu allan i afael y system yn sylweddol. Byddai cymhwyso system gyffredinol yn y DU yn golygu defnyddio cais am Gredyd Treth Plant i ysgogi cyfranogiad y wladwriaeth. Er mai'r Credyd Treth Plant yw'r dull helaethaf sydd ar gael, mae ei gyrhaeddiad yn gyfyngedig o hyd. O'r 2.5 miliwn o gartrefi a allai fod yn gymwys i gael cynhaliaeth

cynnal plant, ni chaiff rhwng 250,000 a 375,000 ohonynt eu nodi gan y system Credyd Treth Plant gan eu bod ar ben uchaf y sbectrwm incwm. Ar hyn o bryd, caiff 250,000 pellach o rieni dibreswyl eu dosbarthu fel unigolion na ellir dod o hyd iddynt neu eu holrhain. Byddai hyn yn cyfyngu cyrhaeddiad system gyffredinol i tua 75 y cant o'r boblogaeth gymwys.

10. Yn ogystal â'r broblem o ran cyrhaeddiad cyfyngedig, byddai system gyffredinol yn anodd iawn i'w gweinyddu yn y DU. Yn Awstralia, mae'r gydberthynas rhwng y system cynnal plant a'r system dreth, sy'n cynnwys hunan-asesiadau mwy helaeth wedi'i diweddaru na'r DU, yn ei gwneud hi'n llawer haws gweithredu system gyffredinol. Heb newidiadau sylweddol i'n system dreth, byddai cyflwyno system cynnal plant gyffredinol yn golygu cyflwyno llawer o brosesau newydd, gan gynnwys cofrestru nifer fawr o gytundebau preifat. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth weinyddu gyflwyno prosesau newydd a phresennol mewn ffordd fwy effeithiol, ar gyfer llwyth achosion mwy.

Y Cynllun Gwella Gweithredol

11. Ystyriwyd pob system amgen yn erbyn gwelliant sylfaenol y disgwyliwyd iddo gael ei gyflawni gan y Cynllun Gwella Gweithredol (gweler isod).

Ym mis Chwefror 2006, nododd y Cynllun Gwella Gweithredol

- ailstrwythuro'r Asiantaeth Cynnal Plant i ddarparu gwell ffocws ar gylch oes achosion;
- neilltuo mwy o staff i glirio ceisiadau newydd;
- symleiddio prosesau er mwyn gwella cynhyrchiant;
- gweithio'n agosach â Chyllid a Thollau EM i olrhain rhieni dibreswyl sy'n osgoi eu cyfrifoldebau;
- ehangu'r defnydd o'r data olrhain sydd ar gael i gynnwys asiantaethau cyfeirio credyd a defnyddio asiantaethau o'r sector preifat lle bo angen;
- cynyddu lefelau cyffredinol staff yr Asiantaeth Cynnal Plant;
- cynnwys uwch weithwyr achosion ar achosion cymhleth er mwyn gwella cywirdeb;
- gwella dulliau cyfathrebu â chleientiaid;
- cynyddu'r defnydd o Orchmynion Didynnu o Enillion a gwella eu heffeithiolrwydd;
- ehangu amrywiaeth yr opsiynau talu;
- datblygu proffiliau risg i helpu'r Asiantaeth Cynnal Plant i ganolbwyntio ei hymdrechion;
- cynyddu'r ffocws ar gydymffurfio a gorfodi gan ddefnyddio'r amrywiaeth presennol o gosbau sydd ar gael megis cymryd trwyddedau gyrru a charcharu;
- cynyddu nifer yr achosion a ddaw ger bron y llysoedd am fethu â chydymffurfio;
- ymrwymo i amrywiaeth o safonau gwasanaeth yn y Cynllun Busnes;
- gweithio gydag EDS i ddatrys problemau TG.

Disgwylir i'r Cynllun Gwella Gweithredol godi 40,000 o blant ychwanegol allan o dlodi erbyn mis Awst 2010. Dylai'r gynhaliaeth a gesglir gynyddu bron i 50 y cant erbyn 2009.

Atodiad III – Ymgynghori â rhanddeiliaid

Crynodeb

1. Mae'r adran hon yn nodi'r broses ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan annatod o'r broses ailgynllunio. Mae hefyd yn darparu crynodeb byr o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r sylwadau a dderbyniwyd a gyflwynwyd ger fy mron.

2. Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol y byddwn yn ailgynllunio'r drefn cynnal plant, cyfarfu'r tîm Ailgynllunio a minnau ag amrywiaeth o bobl. Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu eu sylwadau.

3. Roedd yn hanfodol y gallai cymaint o bobl â phosibl gyfrannu at y gwaith pwysig hwn. Cyhoeddwyd tudalennau ymgynghori ar-lein ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac o ganlyniad, derbyniwyd nifer fawr o negeseuon e-bost. Derbyniwyd llythyrau a chyflwyniadau manylach gan y cyhoedd, grwpiau diddordeb allanol, ASau ac Arglwyddi.

4. Cysylltwyd ag amrywiaeth o grwpiau diddordeb allanol perthnasol a phob AS ac Arglwydd ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori. Fe'u gwahoddwyd i gyflwyno eu barn a'u sylwadau am ddyfodol y drefn cynnal plant.

5. Hefyd, cynhaliodd y tîm Ailgynllunio ymweliadau defnyddiol iawn â swyddfeydd yr Asiantaeth Cynnal Plant a chawsant adborth gan staff yr Asiantaeth.

Grwpiau diddordeb allanol

6. Cyfarfûm â grwpiau diddordeb allanol allweddol, neu derbyniais gyfraniadau ysgrifenedig ganddynt, gan gynnwys:

   - Grŵp Gweithredu Tlodi Plant
   - Gwasanaethau Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)
   - Cyngor ar Bopeth
   - Families Need Fathers

- Cyngor Cyfiawnder i Deuluoedd
- Fathers Direct
- Moneywatchers
- Teuluoedd Un Rhiant
- Resolution
- Scoop Aid
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Y Gymdeithas Genedlaethol er Gweithredu Cynnal Plant (NACSA)

Ymgynghoriad cyhoeddus

7. Sefydlwyd cyfeiriadau post ac e-bost uniongyrchol, ynghyd â thudalennau penodol ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau, i sicrhau y gallai'r cyhoedd wneud cyfraniad. Roedd y wefan yn cynnwys cwestiynau a oedd yn gysylltiedig â'r cylch gorchwyl:

    - Pa gymorth a chyngor fyddai'n helpu rhieni y mae eu perthynas wedi chwalu i gytuno ar y ffordd orau a'r ffordd decaf o gynnal eu plant?
    - A allwn ddod o hyd i ffordd well o sicrhau bod plant yn cael taliadau cynhaliaeth?
    - Beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng gorfodi cyfrifoldebau, cael mwy o arian i blant a gwerth i'r trethdalwr?
    - Pa amcanion eraill y dylid eu cyflawni drwy system cynnal plant a sut?

8. Derbyniais ymateb da i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 110 o negeseuon e-bost i flwch negeseuon y broses ailgynllunio a 147 o lythyrau gan aelodau o'r cyhoedd. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd eu barn.

Crynodeb o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg

Roedd yr ymatebion yn anochel yn amrywio, gyda'r sylwadau yn aml yn adlewyrchu amgylchiadau unigol. Fodd bynnag, daeth rhai themâu allweddol i'r amlwg ac fe'u rhestrir isod.

- Y farn fwyaf cyffredin oedd bod angen **gwasanaethau cyfryngu a chynghori teuluoedd** i roi gwybodaeth i rieni am yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Awgrymwyd bod angen cyngor ffeithiol ar bob mater, gan gynnwys cynhaliaeth cynnal plant, trefniadau ariannol, tai a chyflogaeth.
- Roedd **diddymu gorfodaeth i wneud cais am fudd-daliadau** er mwyn galluogi rhieni i fynd ar drywydd cynhaliaeth yn annibynnol ar yr Asiantaeth Cynnal Plant yn farn gyffredin arall. Yn ogystal, roedd llawer yn awyddus i rieni â gofal gadw mwy o unrhyw gynhaliaeth, neu'r swm cynhaliaeth cyfan, yn ogystal â budd-daliadau.
- Roedd **galluogi rhieni i wneud cais am gynhaliaeth drwy'r llysoedd**, yn arbennig y rheini a oedd eisoes yn mynd i'r llys i drefnu materion ariannol eraill, yn farn boblogaidd. Roedd hyn er gwaethaf rhai pryderon y gall oedi godi wrth ymdrin â newidiadau mewn amgylchiadau a rhieni dibreswyl nad ydynt yn cydymffurfio.
- Roedd **talu cynhaliaeth ymlaen llaw** yn syniad poblogaidd. Awgrymwyd hefyd y gellid cyflwyno cyfradd sefydlog o gynhaliaeth, wedi'i chynllunio i adlewyrchu anghenion sylfaenol plentyn.
- Pryder cyffredin oedd **na fyddai'r gynhaliaeth a dalwyd i'r rhiant â gofal bob amser o fudd i'r plentyn.**
- Mynegodd sawl un bryder ynghylch **yr effaith a gaiff talu cynhaliaeth cynnal plant ar berthnasau newydd ac ail deuluoedd**, a'r **trefniadau gofal a rennir** sydd gan rieni. Roedd gwahaniaeth barn o ran yr annhegwch i ail deuluoedd, a allai fod yn dioddef oherwydd cynhaliaeth cynnal plant, a'r annhegwch i'r teulu cyntaf, a allai fod yn dioddef o ganlyniad i'r lwfans a roddir i'r ail deulu yn y cyfrifiad cynhaliaeth. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn ei bod yn annheg bod rheolau gofal a rennir yn effeithio ar swm y gynhaliaeth sy'n daladwy. Fodd bynnag, cydnabuwyd gan lawer **nad oes ateb hawdd a fyddai'n addas i bob teulu**.
- Gwnaed cais cyffredinol i **achosion o'r hen gynllun gael eu trawsnewid i reolau'r cynllun newydd**. Nododd rhai ymatebwyr, fel isafswm, **y dylai rhieni â gofal ar yr hen gynllun gael budd o Bremiwm Cynhaliaeth Plant y cynllun newydd**.

Crynodeb o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg *(parhad)*

- Cafwyd cytundeb cyffredinol bod angen **ymagwedd decach a chaletach tuag at orfodi**, gyda sawl un yn cydnabod bod gan yr Asiantaeth Cynnal Plant ddigon o bwerau gorfodi yn barod. Awgrymodd rhai y dylid **cymryd pasport y rhiant dibreswyl** neu **godi dirwy am fethu â thalu**. Yn ogystal, gofynnodd llawer i **Orchmynion Didyniadau o Enillion gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.**
- Roedd llawer yn cytuno bod angen i'r Asiantaeth Cynnal Plant sefydlu **gwell ffyrdd o rannu gwybodaeth gydag adrannau eraill o'r llywodraeth**, a nododd rhai y dylai'r swyddogaeth cynnal plant fod yn rhan o Gyllid a Thollau EM. Yn ogystal, roedd rhai o blaid defnyddio **Cyllid a Thollau EM i ddidynnu taliadau** drwy godau treth rhieni dibreswyl.

Atodiad IV – Tîm prosiect Ailgynllunio Henshaw

Syr David Henshaw

1. Ganed ac addysgwyd Syr David yn Lerpwl; enillodd radd yn Sheffield mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ac wedyn Radd Meistr mewn Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Birmingham (INLOGOV).

2. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus o Brifysgol John Moores Lerpwl, yn Gymrawd o Brifysgol Lerpwl, yn gyn Gymrawd Gwadd o Athrofa Technoleg Brenhinol Melbourne, Awstralia, yn Gydymaith y Sefydliad Rheolwyr Siartredig, yn Gymrawd o Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth y Faenol, ac yn aelod o fwrdd yr Athrofa Ewropeaidd dros Faterion Trefol ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl.

3. Mae Syr David yn Gadeirydd Awdurdod Iechyd Strategol Gogledd Orllewin Lloegr ac mae ganddo amrywiaeth o gyfrifoldebau cyhoeddus a phreifat eraill, gan gynnwys cynghori Uned Strategaeth y Prif Weinidog a gweithredu fel aelod o Banel Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus Trysorlys EM. Syr David oedd Prif Weithredwr Cyngor Dinas Lerpwl rhwng 1999 a 2006. Cyn hynny roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Knowsley. Roedd yn Brif Weithredwr Cwmni Diwylliant Lerpwl, yn aelod o fwrdd Partneriaeth Mersi, yn Gadeirydd Grŵp Partneriaeth Lerpwl, yn Gadeirydd SOLACE Enterprises, yn Gyn Lywydd Cymdeithas y Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, yn gynghorydd i Uned Gyflwyno'r Prif Weinidog, yn Gyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yr Ysgrifennydd Cartref (Carchardai, y Gwasanaeth Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid yn Lloegr a Chymru) ac yn aelod o fwrdd Cyngor yr Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau.

Tîm y prosiect

4. Cafodd Syr David gymorth gan dîm o swyddogion o Uned Strategaeth y Prif Weinidog a'r Adran Gwaith a Phensiynau:

   Stephen Muers (Arweinydd Tîm), Uned Strategaeth y Prif Weinidog

   Peter Brant, Uned Strategaeth y Prif Weinidog

   Gavin Lambert, Uned Strategaeth y Prif Weinidog

Abigail Plenty, Uned Strategaeth y Prif Weinidog

Francesca Sainsbury, Uned Strategaeth y Prif Weinidog

Karen Saunders, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mark Turner, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Grŵp Cynghori

5. Ymgynghorodd Syr David yn rheolaidd â Grŵp Cynghori, a oedd yn cynnwys swyddogion y llywodraeth ac ymgynghorwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, Trysorlys EM, yr Adran Addysg a Sgiliau, yr Adran Materion Cyfansoddiadol a Rhif 10 Stryd Downing. Cadeiriwyd y Grŵp Cynghori gan yr Arglwydd Hunt o Kings Heath, yr Is-Ysgrifennydd Seneddol dros Waith a Phensiynau.

Costau

6. Mae amcangyfrif o gyfanswm costau'r prosiect ailgynllunio rhwng mis Chwefror 2006 a mis Gorffennaf 2006 fel a ganlyn:

• Cost amser Syr David Henshaw	£65,000
• Cost treuliau Syr David Henshaw	£10,000
• Cost staffio'r tîm Ailgynllunio, gan gynnwys treuliau	£200,000
• Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff a chyhoeddi	hyd at £100,000
• Ymchwil/ymgynghori	£50,000

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

7. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn talu costau gorbenion swyddfa cyffredinol, er enghraifft ystafelloedd a TG. Ni ellir nodi'r costau hyn yn annibynnol ar gostau rhedeg yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Ôl-nodiadau

[1] Gweler, er enghraifft, Rodgers B a Pryor J, 1998, *Divorce and Separation: the outcomes for children*, Adroddiad Ymchwil Sefydliad Joseph Rowntree.

[2] Barnes M et al, 2005, *Family Life in Britain: Findings from the 2003 Families and Children Study (FACS),* Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 250.

[3] Sefydliad Joseph Rowntree, 1999, *Child Poverty and its consequences.*

[4] Gweler, er enghraifft, Ermisch J, Francesconi M a Pevalin D, 2001, *Outcomes for Children of Poverty*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 158.

[5] Peacey V a Rainford L, 2004, *Attitudes towards child support and knowledge of the Child Support Agency, 2004*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 226.

[6] Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Deddf Plant a Mabwysiadu 2006.

[7] Atkinson A, McKay S a Dominy N, 2006*, Future policy options for child support: The views of parents*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 380.

[8] Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152.

[9] Dadansoddiad o Astudiaeth Teuluoedd a Phlant 2003.

[10] Dadansoddiad mewnol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

[11] Er na chaiff y termau 'rhiant â gofal' a 'rhiant dibreswyl' eu derbyn gan bawb gan eu bod yn ymddangos fel petaent yn anwybyddu rhai patrymau o ofal a rennir, maent yn adlewyrchu terminoleg bresennol yr Asiantaeth Cynnal Plant.

[12] Mae'r rhain yn rhieni â gofal a chanddynt yr hawl i Bremiwm Cynhaliaeth Plant mewn achosion lle mae'r rhiant dibreswyl yn cydymffurfio. Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

[13] Atkinson A a McKay S, 2005, *Child Support Reform: The views and experiences of CSA staff and new clients*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 232.

[14] Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152.

[15] Yr Adran Nawdd Cymdeithasol, 1990, *Children Come First: The Government's proposals on the maintenance of children.*

[16] "The experience of the last ten years rather suggests that non-resident parents know that if they ignore the agency they can get away with it", Yr Athro Nick Wikeley wrth roi tystiolaeth lafar i Bwyllgor Dethol yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2004.

[17] Willets M *et al*, 2005, *Children in Britain: Findings from the 2003 Families and Children Study (FACS)*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 249.

[18] Mae'r rhain yn cynnwys Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

[19] Gweler, er enghraifft, Corden A, 1999, *Making child support arrangements work*, Sefydliad Joseph Rowntree ac Asiantaeth Cynnal Plant Awstralia, 2005, *Child Support Schemes – Australia and Comparisons.*

[20] Diffinnir budd-daliadau yma fel Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm.

[21] Adran Iechyd a Gwasanaethau Dynol yr U.D., 2004, *FY 2005–2009 National Child Support Enforcement Strategic Plan.*

[22] Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2006, *Child Support Agency – implementation of the child support reforms*, HC 1174.

[23] Mae 'hen gynllun' yn cyfeirio at achosion cynhaliaeth plant a aseswyd cyn 2003. Mae 'cynllun newydd' yn cyfeirio at achosion a aseswyd ar ôl mis Mawrth 2003.

[24] Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

[25] Asiantaeth Cynnal Plant, 2006, *Cynllun Gwella Gweithredol 2006–2009 yr Asiantaeth Cynnal Plant.*

[26] Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152.

[27] Gallai rhieni â gofal ar yr hen gynllun gael budd o'r cynllun Bonws Cynhaliaeth Plant. Gall y cynllun ddarparu ar gyfer cyfandaliad o hyd at £1,000 pan fydd y rhiant â gofal yn gadael budd-daliadau i fynd i weithio. Bydd y swm hwn yn cronni ar gyfradd o hyd at £5 yr wythnos pan gaiff cynhaliaeth ei thalu.

[28] Edin K, 1995, 'Single mothers and child support: the possibilities and limits of child support policy', *Adolygiad o Wasanaethau Plant ac Ieuenctid*, Cyfrol 17, Rhif 1/2, tud. 203–30.

[29] Caiff cynhaliaeth ei diystyru yn erbyn Cymhorthdal Incwm (hyd at drothwy penodol), Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

[30] Dadansoddiad y tîm ailgynllunio gan ddefnyddio Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152; Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006; ac Arolwg Adnoddau Teuluoedd 2004–05.

[31] Paull G, Walker I a Zhu Y, 2000, 'Child Support Reform: Some Analysis of the 1999 White Paper', *Fiscal Studies*, Cyfrol 21, Rhif 1 tud. 105–40.

[32] Wei-Yin Hu, 1999, 'Child Support, Welfare Dependency, and Women's Labor Supply', *Journal of Human Resources*, Cyfrol 34, Rhif 1, tud. 71–103.

[33] Dadansoddiad mewnol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

[34] Meyer D a Cancian M, 2003, *W2 Child Support Evaluation*, Prifysgol Wisconsin.

[35] Mansfield P *et al*, 1999, *What policy developments would be most likely to secure an improvement in marital stability*, One Plus One Marriage and Partnership Research, ailagraffwyd o Simons J, 1999, Gol., *High Divorce Rates: The state of the evidence on reasons and remedies*, Cyfrol 2 (Papurau 4–7), Cyfres Ymchwil Rhif 2/99, Adran yr Arglwydd Ganghellor.

[36] Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152.

[37] Gauthier A, 1996, 'Measured and unmeasured effects of welfare benefits on families: Implications for Europe's demographic trends', yn Coleman D, Gol., *Europe's population in the 1990s*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

[38] Douglas G a Murch M, 2000, *How parents cope financially on marriage breakdown*, Sefydliad Joseph Rowntree.

[39] Jarvis S a Jenkins S, 1999, *Marital Splits and Income Changes*, Y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd.

[40] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2006*, Cartrefi sydd ar Incwm Is na'r Cyfartaledd 1994/95–2004/05.*

[41] Mae gorchmynion cydsynio yn gytundebau cyfreithiol a wneir rhwng rhieni ac a gadarnheir gan y llysoedd.

[42] Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

[43] Dadansoddiad o Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152.

[44] Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152. Nid oes data tebyg ar gyfer achosion o dan y cynllun newydd.

[45] Dengys ystadegau gwe yr Asiantaeth Cynnal Plant fwy na 100,000 o ddefnyddwyr y flwyddyn.

[46] Er bod Llywodraeth Awstralia wedi cyhoeddi arian ar gyfer rhaglen o ganolfannau cydberthnasau teuluol, ni fydd y 15 o ganolfannau cyntaf yn agor tan ganol 2006. Bydd cyfanswm o 65 o ganolfannau yn agor dros dair blynedd – Llywodraeth Awstralia, Adran y Twrnai Cyffredinol

[47] Y Gronfa Rianta, www.parentingfund.org

[48] Y Swyddfa Gartref, 2006, *Respect Action Plan – Supporting Families.*

[49] Mae'r 'Dad Pack' ar gael gan Fathers Direct, mae samplau ar gael yn www.fathersdirect.com

[50] Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, 2003, *Family Justice Statistics Bulletin*.

[51] Dadansoddiad y tîm Ailgynllunio o'r Astudiaeth Teuluoedd a Phlant, 2003, a Family Justice Statistics Bulletin, 2003.

[52] Dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau/tîm Ailgynllunio gan ddefnyddio Wikeley N *et al*, 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152 a Chrynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

[53] Dadansoddiad y tîm Ailgynllunio

[54] "The experience of the last ten years rather suggests that non-resident parents know that if they ignore the agency they can get away with it", Yr Athro Nick Wikeley wrth roi tystiolaeth lafar i Bwyllgor Dethol yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2004.

[55] Byddai llwyth achosion y gwasanaeth gweinyddol yn llai na llwyth achosion yr asiantaeth bresennol, am fod dileu'r orfodaeth yn caniatáu i rieni ddewis a ydynt am wneud eu trefniadau preifat eu hunain neu gael gorchymyn cydsynio.

[56] Dadansoddiad y tîm Ailgynllunio o'r Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006 a Wikeley N *et al,* 2001, *Arolwg Cenedlaethol o Gleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant*, Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 152.

[57] Gellir talu cynhaliaeth plant mewn dwy ffordd: y gwasanaeth casglu, lle y caiff taliadau eu prosesu gan yr Asiantaeth Cynnal Plant, neu Cynhaliaeth Uniongyrchol, lle y mae'r rhiant dibreswyl yn gwneud taliadau yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal.

[58] Pliatsky L, 1980, *Report on Non-Departmental Public Bodies*, Cm 7797, Y Llyfrfa.

[59] Mae Offeryn Statudol Rhif 1520 (Gorffennaf 2006) yn diwygio Deddf Cynnal Plant 1991, gan olygu y bydd modd gorfodi dyledion sydd wedi bodoli dros chwe blynedd o dan y gyfraith yn y dyfodol.

[60] Deddf Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau (dyddiadau amrywiol mewn awdurdodaethau gwahanol); roedd pob Deddf yn deillio o 'gyfraith enghreifftiol' a ddatblygwyd yn Ne Cymru Newydd.

[61] Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2004, *Population Trends 117: Characteristics of sole registered births and the mothers who register them*.

[62] Garfinkel I *et al*, 2005, 'In-Hospital Paternity Establishment and Father Involvement in Fragile Families', *Journal of Marriage and Family*, Cyf. 67, Rhif 3 tud. 611–26.

[63] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 1999, *Contract Newydd ar gyfer Lles: Hawliau Plant a Chyfrifoldebau Rhieni*, Cm 4349, Y Llyfrfa.

[64] O dan y cynllun newydd, cyfrifir incwm net drwy ddidynnu treth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant o incwm gros.

[65] O dan y cynllun newydd, gofal a rennir yw pan fydd y rhiant dibreswyl yn gofalu am ei blentyn dros nos am o leiaf 52 noson y flwyddyn. Caiff cynhaliaeth ei lleihau yn unol â hynny.

[66] Diffinnir cyfraddau cydymffurfio fel 'cyfran y rhai sy'n talu cynhaliaeth a gesglir gan yr Asiantaeth Cynnal Plant a dalodd *rywbeth* yn ystod y chwarter blaenorol'. Dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau.

[67] I gael manylion o'r arbedion posibl drwy ddefnyddio debyd uniongyrchol gweler www.bacs.co.uk/BPSL/directdebit/generalpublic/Savings/

[68] Asiantaeth Cynnal Plant, 2006, *Cynllun Gwella Gweithredol 2006–2009 yr Asiantaeth Cynnal Plant.*

[69] Mae hyn yn cyfeirio at nifer y rhieni dibreswyl sy'n talu rhyw swm o gynhaliaeth. Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

[70] Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Cynnal Plant, 2004/05.

[71] Cyngres yr UD, 2006, *Temporary Assistance for Needy Families (TANF) Re-authorization Legislation.*

[72] Swyddfa Gyfrifyddu Gyffredinol yr Unol Daleithiau, 1995, *Child support enforcement: opportunities to reduce federal and state costs*; National Conference of State Legislatures, 1999, *State Child Support Programs: Fee Collection and Cost Recovery Policies*, www.ncsl.org/programs/cyf/fees.htm

[73] Crynodeb Chwarterol o Ystadegau'r Asiantaeth Cynnal Plant, Mawrth 2006.

Gellir cael copïau ychwanegol o'r cyhoeddiad hwn o siopau llyfrau TSO (Y Llyfrfa).

Mae'r fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar-lein yn
www.dwp.gov.uk/childsupport

Mae copïau o'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ffurf Braille, ffurf Hawdd ei Darllen, ac yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn print mawr ac ar dâp sain. Mae'r copïau hyn ar gael am ddim gan:

Child Support Redesign team
Child Support Division
5th Floor
The Adelphi
1–11 John Adam Street
London
WC2N 6HT
Ffôn: 020 7962 8128

Os oes gennych anawsterau siarad neu glywed, gallwch gysylltu â ni drwy ffôn testun ar 020 7712 2707.

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am i 4pm.

Gellir gweld y cyhoeddiad hwn ar-lein yn **www.dwp.gov.uk/childsupport**

ISBN: 1-84695-494-0 978-1-84695-494-8